## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2018-19

**Mehefin 2019**

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Crynodeb o Gyflawniad y Cyfarwyddwr | 5 |
| 3 | Sut mae Pobl yn Llywio ein Gwasanaethau? | 6 |
| 4 | Hyrwyddo a Gwella Llesiant y Rheiny sy'n derbyn cymorth gennym ni | |
| | (a) Gweithio gyda phobl i bennu a chyd-baratoi deilliannau lles personol maen nhw eisiau'u bodloni | 13 |
| | (b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn diogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl | 20 |
| | (c) Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu’u niweidio | 23 |
| | (d) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a bod yn rhan o'r gymdeithas | 30 |
| | (e) Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach mewn modd diogel | 32 |
| | (f) Gweithio gyda phobl i gyflawni lles economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy’n diwallu eu hanghenion | 33 |
| 5 | Sut rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud | |
| | (a) Ein gweithlu a sut rydyn ni’n cefnogi eu rolau proffesiynol | 36 |
| | (b) Ein hadnoddau ariannol a sut rydyn ni'n cynllunio ar gyfer y dyfodol | 37 |
| | (c) Gweithio mewn Partneriaeth, Arweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Trefn Lywodraethol ac Atebolrwydd | 38 |
| 6 | Cyrchu Gwybodaeth a Dogfennau Allweddol | 41 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 A minnau'n Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Rhondda Cynon Taf, rydw i'n falch o gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018-19. Mae'n esbonio sut mae Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor wedi cyflawni dros y flwyddyn a'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau roedden ni wedi'u pennu yn adroddiad y llynedd. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y blaenoriaethau rydyn ni wedi'u pennu ar gyfer 2019-20.

1.2 Y Gwasanaethau Cymdeithasol yw un o swyddogaethau allweddol y Cyngor. Mae gan ein Gwasanaethau Llesiant, Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant weithlu ymroddgar ac ymrwymedig. Rydyn ni'n darparu amrywiaeth o wasanaethau a chymorth ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r gwasanaethau'n diogelu plant, pobl ifainc, oedolion, teuluoedd a chynhalwyr sy'n agored i niwed, ac yn rhoi cymorth iddyn nhw. Ein bwriad yw helpu pobl i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefu eu hunain am gyhyd â bod modd, ac rydyn ni'n gwybod bod hyn yn helpu i wella'u llesiant hir dymor.

## Ein blaenoriaethau a'r ffordd ymlaen

1.3 Beth rydyn ni'n ei wneud a sut caiff hyn ei ffurfio gan sawl peth. Mae hyn yn cynnwys deddfau fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n canolbwyntio ar lesiant, atal, gweithio mewn partneriaeth, cydweithio ac integreiddio a chynnwys pobl. Rydyn ni hefyd wedi asesu anghenion y boblogaeth gyda chymorth sefydliadau eraill.

1.4 Rydyn ni'n gweithio er mwyn cwrdd ag anghenion gofal a chymorth y rheiny sydd angen ein help, a'r gymuned ehangach. Rydyn ni'n rhoi pwyslais ar helpu:

- Pobl sydd ag anableddau dysgu
- Pobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia;
- Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc;
- Teuluoedd ac aelodau unigol o'r teulu
- Plant sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i anabledd a salwch
- Pobl â nam corfforol a/neu nam ar y synhwyrau
- Pobl sydd wedi profi profiad niweidiol yn ystod plentyndod

1.5 Mae ein hasesiadau wedi dangos bod y pethau canlynol yn bwysig i bobl:

- Casglu gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Atal problemau cyn iddyn nhw ddechrau
- Atal problemau cyn iddyn nhw waethygu
- Cysylltu pobl â'u cymuned
- Gwasanaethau di-dor h.y. sefydliadau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd fel un
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn un personol a gweithio gyda phobl sydd angen help

1.6 Mae ein hamcanion hir dymor, sydd wedi cael eu cynnwys mewn adroddiadau blaenorol, yn parhau i lywio'n gwaith a'r hyn rydyn ni'n ei ddarparu:

- Ailfodelu gwasanaethau i oedolion i leihau'r angen am ymyrraeth a chynyddu annibyniaeth y bobl trwy gynnig ymyrraeth gynnar ac atal.

- Integreiddio gwaith comisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol gyda gwasanaethau gofal iechyd yn y gymuned i wella profiad defnyddwyr a rheoli'r

gost fawr sy'n gysylltiedig â derbyniadau i'r ysbyty a'r Uned Argyfwng mewn modd mwy effeithiol.

- Sicrhau bod rhagor o bobl ifainc sydd ag anableddau cymhleth yn aros yn Rhondda Cynon Taf, lle cawson nhw eu magu, ac yn eu cartrefi nhw eu hunain. Sicrhau bod y bobl ifainc yma'n derbyn cyfleoedd i gymryd rhan mewn byd addysg, hyfforddiant, diwylliant a'r celfyddydau. Bydd y cyfleoedd yma, yn eu tro, yn helpu'r bobl ifainc yma i fagu annibyniaeth.

- Darparu rhagor o gymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl yn y gymuned i aros yn iach, ail-ymgysylltu â byd addysg, dod o hyd i swydd ac aros yn heini. Byddwn ni'n canolbwyntio ar roi cymorth i bobl ym mhob agwedd o'u bywydau, nid rhoi diagnosis yn unig.

- Helpu preswylwyr yr ardal i fod ymhlith rhai o'r bobl fwyaf heini yn Ne Cymru. Bydd modd i breswylwyr fanteisio ar ein cyfleusterau hamdden, ymweld â'n theatrau, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth a gwneud y gorau o barciau a mannau agored.

## Beth sydd yn yr adroddiad yma?

1.7 Mae'r adroddiad yn crynhoi ein cyflawniad yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19. Tu hwnt i'n cyflawniad o ran darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'n tynnu sylw at gynnydd a datblygiadau yn erbyn y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu roedden ni wedi'u pennu yn adroddiad llynedd. Mae llunio'r adroddiad yma'n ein helpu ni i fod yn atebol i breswylwyr Rhondda Cynon Taf ac yn agored am yr hyn rydyn ni'n ei wneud a pham.

1.8 Yn dilyn y cyflwyniad yma, mae yna bum prif ran. Mae **rhan 2** yn nodi trosolwg o gyflawniad ein Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant. Mae **rhan 3** yn esbonio sut mae pobl yn llywio ein gwasanaethau a beth rydyn ni'n ei wneud.

1.9 Mae **rhan 4** yn nodi'r camau gweithredu rydyn ni wedi'u cymryd ac yn eu cymryd ar hyn o bryd i wella llesiant pobl. Mae'n nodi'r deilliannau y mae pobl eisiau eu cyflawni a sut rydyn ni'n gweithio gyda nhw, a beth rydyn ni wedi'i wneud i ddiogelu a hyrwyddo llesiant corfforol ac iechyd meddwl y bobl. Mae hefyd yn sôn am gamau gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed a helpu pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau iach yn y cartref, gyda'r teulu a pherthnasau personol. Yn olaf, ond nid y lleiaf pwysig, mae'r adroddiad yn nodi'r camau gweithredu rydyn ni wedi'u cymryd i helpu pobl i fyw mewn llety sy'n cwrdd â'u hanghenion.

1.10 Mae **rhan 5** yn esbonio sut rydyn ni fel adran yn gweithredu, ein gweithlu, ein hadnoddau ariannol a sut rydyn ni'n cynllunio a gweithio gyda sefydliadau eraill yn yr ardal. Gan ystyried bod yr adroddiad yma'n adroddiad cryno, mae **rhan 6** yn darparu ffynonellau gwybodaeth ar gyfer darllen pellach os bydd angen.

## 2. Crynodeb o Gyflawniad

2.1 Rydw i'n falch o roi gwybod bod ein carfanau ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf eto wedi cyflawni gwasanaeth o ansawdd uchel i bobl sydd angen gofal a chymorth. Rydyn ni wedi parhau i ddangos ymrwymiad i gydweithio, arloesedd a chreadigrwydd i ddatblygu ein partneriaethau strategol a modelau gofal newydd. Rydyn ni'n parhau i weithio gydag eraill yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i ddarparu'r gwasanaethau a'r cymorth gorau posibl i helpu pobl i wella'u llesiant a byw'n ddiogel ac mor annibynnol â phosibl.

2.2 Mae'r adroddiad yma'n crynhoi ein cyflawniad dros y flwyddyn. Mae'n tynnu sylw at raddfa'r gwasanaethau a chymorth rydyn ni wedi'u darparu, ein cyflawniadau yn erbyn cynlluniau a thargedau, a heriau. Fyddai hyn ddim wedi bod yn bosibl heb y gweithlu ymroddgar sydd gyda ni ar bob lefel ac rydyn ni wedi parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant, cymorth a datblygiadau o ran y ffordd rydyn ni'n gweithio. Rydyn ni hefyd yn ffodus i gael arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol y Cyngor yn gyffredinol, sy'n hanfodol er mwyn i ni allu bodloni anghenion y bobl, o ran gwasanaethau a chymorth ac er mwyn llywio gwelliannau pellach yn ein gwasanaethau a thrawsnewid. Cafodd hyn ei nodi gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei hadolygiad diweddar o swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol statudol y Cyngor.

2.3 Mae'r flwyddyn yma wedi gweld sawl datblygiad. I mi, mae rhai uchafbwyntiau'n cynnwys datblygu ein Hybiau Cymuned, ein Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth ac ein modelau llety newydd ar gyfer pobl hŷn. Mae'r datblygiadau hyn, a fydd yn arwain at fuddion pellach o ran llesiant y bobl, yn mynd tu hwnt i'r ystod eang o gamau gweithredu rydyn ni'n eu cyflawni bob dydd er mwyn cwrdd â'n goblygiadau o ran darparu gofal a chymorth o lefel da i'r rheiny ag anghenion.

2.4 Rydyn ni'n effro i'r ffaith ein bod ni'n fwy tebygol o gyflawni deilliant cadarnhaol os ydyn ni'n darparu cymorth i deuluoedd mewn angen yn gyflym. Mae ein Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi'i ganolbwyntio ar amseroedd ymateb cyflymach, asesiad diagnostig o angen manylach, cael gwared ar rwystrau i gynyddu lefelau gwydnwch a gwella cyflawni gwasanaethau cymorth i deuluoedd ar gyfer trigolion.  Mae'r gwasanaeth yn helpu teuluoedd sydd â phroblemau corfforol a phroblemau iechyd meddwl, teuluoedd lle mae'r rhieni wedi gwahanu, trawma yn ystod plentyndod, camdriniaeth neu droseddu a chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Mae'r mwyafrif o deuluoedd wedi cael eu rheoli'n llwyddiannus gan ddefnyddio lefel ymyrraeth is efallai ar gam cynharach. Er ei bod hi'n rhy gynnar i asesu effaith y fenter yma, mae'r dangosyddion cychwynnol yn galonogol gyda gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau gofal a chymorth wedi'u cynllunio, a chyfathrebu a chysondeb gwell wrth ddarparu'r gwasanaeth. Rydw i'n falch iawn bod hyn hefyd wedi cael ei nodi gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

2.5 Rhan bwysig o'n rôl yw gwella llesiant y bobl a'u hannog a'u cefnogi nhw i ddysgu, datblygu a chyfrannu at y gymdeithas. Mae ein gwaith datblygu Hybiau Cymuned yn helpu i uno'r gwasanaethau cyhoeddus, gan sicrhau eu bod nhw'n fwy cost effeithlon a hygyrch. Maen nhw'n cynnig un pwynt cyswllt o fewn y cymunedau i fanteisio ar wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da o ran ceisio cymorth a llwyfan ar gyfer dysgu, gwirfoddoli ac i ddatblygu capasiti yn y gymuned, mannau hyblyg yn y gymuned lle mae modd i bobl gwrdd a chymdeithasu, ac felly helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. O ganlyniad i hynny, mae Hybiau Cymuned yn cyflawni rôl bwysig o ran atal salwch a gwella iechyd a lles.

2.6 Rydyn ni hefyd wedi gwneud cynnydd mawr o ran datblygu modelau llety gwahanol i ddarparu rhagor o ddewis i drigolion hŷn, gan eu galluogi nhw i fyw bywydau iach a diogel cyhyd ag y bo modd, gan gynyddu annibyniaeth a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol, sy'n

rhannau allweddol o'n hagenda. Mae ein rhaglen llety Gofal Ychwanegol yn mynd rhagddo ac rydyn ni wedi datblygu cynlluniau i gynyddu capasiti ar gyfer y rheiny â dementia.

2.7 A minnau'n Gyfarwyddwr, rydw i'n derbyn cymorth gan fy ngharfan i yn ogystal â chydweithwyr ym mhob rhan o'r Cyngor lle rydyn ni'n cael ein cefnogi wrth gyflawni'n gwaith i gefnogi llesiant unigolion. Er bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhan o adran y Cyngor ar wahân, mae'r Cyngor yn gwneud sawl peth arall, fel cynnal gwasanaethau sydd wedi'u lleoli yn y gymuned, fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, sy'n cyfrannu at yr agenda llesiant. Mae gwaith ein staff yn galw am isadeiledd cadarn a gwasanaethau cymorth TG a diolch i gymorth ein staff ymroddgar o fewn y grŵp a'n cydweithwyr yn y gwasanaeth TG corfforaethol yn ystod 2018/19, roedden ni wedi cyflwyno'r System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn llwyddiannus ac wedi gwella'n trefniadau gweithio hyblyg. Buddsoddiad Llywodraeth Cymru i ddatrysiad TG cenedlaethol yw'r System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru. Mae'n darparu llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth sydd wedi cael ei dylunio i gefnogi darpariaeth gofal a chymorth well i bobl ar hyd a lled Cymru. Bydd modd i holl weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ei defnyddio ar ôl i'r system gael ei chyflwyno'n llawn. Bydd yn helpu staff i weithio gyda'i gilydd i gynllunio, cydlynu a darparu cymorth a/neu wasanaethau ar gyfer unigolion, teuluoedd, cynhalwyr a'r gymuned.

2.8 Rydw i hefyd yn falch bod y Cyngor yn parhau i ddatblygu'i ddull corfforaethol o ran diogelu, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad wedi'i ddiweddaru a gafodd ei gyflwyno yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Chwefror 2019.

2.9 Byddaf i'n dod â fy nghrynodeb i ben unwaith eto trwy fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'r holl staff ymroddgar sy'n parhau i weithio'n galed i sicrhau ein bod ni'n darparu'r ymateb gorau posibl i anghenion yr unigolion sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

# 3. Sut Mae Pobl yn Llywio Ein Gwasanaethau?

3.1 Rydyn ni wedi parhau i estyn allan i bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau a'r cyhoedd yn fwy eang. Rydyn ni'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth, y cyfryngau cymdeithasol, arolygon, cyfarfodydd â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a holiaduron adborth. Rydyn ni'n annog adborth, boed hynny'n adborth cadarnhaol neu negyddol, ac mewn rhai achosion byddwn ni'n gwneud trefniadau arbennig i helpu unigolion i gymryd rhan. Eleni rydyn ni wedi canolbwyntio'n fwy ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a'n llwyfan ar-lein, sy'n ei gwneud hi'n haws i weld beth sy'n cael ei ofyn gan breswylwyr.

3.2 Dull arloesol y Cyngor er mwyn ymgysylltu â'i breswylwyr a chymunedau i archwilio sut mae modd i ni weithio gyda'n gilydd i ddatblygu dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau yw "RhCT Gyda'n Gilydd". Mae hyn yn ein helpu ni i barhau i gynnal y gwasanaethau yn y dyfodol. Mae'r dull yma wedi arwain at drosglwyddo asedau cymunedol yn llwyddiannus, sy'n sicrhau bod modd parhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i gymunedau lleol. Er enghraifft, trosglwyddo prydles Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair, Aberdâr i Age Connects Morgannwg.

3.3 Yn ystod y flwyddyn, roedden ni wedi ymgysylltu â phobl mewn sawl ffordd: Er enghraifft:

- Roedden ni wedi hwyluso sesiwn gyda phlant sy'n derbyn gofal er mwyn adolygu a datblygu cynnwys gwefan. Roedd hyn wedi arwain at lansio gwefan "Dwy ochr/Two Sides" yn rhan o wefan gyfredol "Wicid". Gwefan wybodaeth a chyfryngau i bobl ifainc sydd wedi'i chreu gan bobl ifainc yw'r cynllun diwethaf. Mae'r wefan hon, sydd â dros 2,400 o ddefnyddwyr cofrestredig, eisoes yn

rhedeg nodweddion a gwybodaeth sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal. Roedd cysylltu'r ddau yn weithred resymegol.

- Roedden ni wedi cyfathrebu â grŵp o bobl ifainc, y "Fforwm Glasbrint", sy'n cael ei hwyluso gan Voices from Care. Mae'r fforwm yn cwrdd yn aml i gasglu barn pobl ifainc. Rydyn ni'n defnyddio'r adborth i lywio'r gwerthusiad o'r gwasanaethau a datblygiadau pellach. Maen nhw'n aelodau o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol a hefyd wedi gweithio gyda'n staff i ddatblygu Fframwaith Cymorth Gadael Gofal a strategaeth dai.

- Mae'r Gwasanaethau i Blant yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid trwy ein cylch trafod materion pobl ifainc. Mae'r cylch trafod wedi cael ei sefydlu ar draws y Fwrdeistref Sirol i wella'r ffordd rydyn ni'n ymgysylltu â phobl ifainc. Mae'n cynnwys pobl ifainc sy'n cynrychioli'u hysgolion. Yn eu tro, maen nhw'n bwydo gwybodaeth yn ôl i'w Cyngor Ysgol er mwyn galluogi pobl ifainc i fod yn rhan o faterion pwysig sy'n cael effaith arnyn nhw. Mae'r Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn gwneud defnydd da o'r cyfryngau cymdeithasol. Mae ei dudalen Facebook yn derbyn tua 30-40,000 o drawiadau (‘hits’) bob mis, tra bod ei dudalen Twitter yn cael 28-30,000.

3.4 Rydyn ni'n adolygu ein gwasanaethau'n gyson i sicrhau eu bod nhw'n bodloni anghenion y bobl ac yn darparu gwerth am arian. Rydyn ni'n ystyried canfyddiadau'r adolygiadau, canlyniadau arolygon, barnau sy'n cael eu mynegi mewn ymgynghoriadau a sylwadau pobl pan fyddan nhw'n cysylltu â ni i wneud cwyn neu roi sylw yn ofalus. Enghraifft dda o hyn yw datblygiad tai Maestrisant yn Nhonysguboriau.

3.5 Roedd y Gwasanaethau i Oedolion wedi adolygu'r ddarpariaeth o ofal cartref a chymorth ar gyfer pedwar person yn nghyfadeilad tai Maestrisant, cynllun â 31 gwely. Roedden ni wedi ymgynghori â phob person sy'n derbyn gofal a chymorth gan y Gwasanaeth Cymorth Gartref mewnol yn Maestrisant. Roedden ni wedi comisiynu Age Connects Morgannwg i gynnig gwasanaeth dadleuwriaeth annibynnol i gefnogi pob person trwy'r broses ymgynghori.

3.6 Rydyn ni'n gwybod bod angen gwneud rhagor i sicrhau llais y cynhalwyr. Er bod arolwg diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cadarnhau bod "*ymarferwyr yn gryf eu cymhelliad ac yn gynyddol wedi arfer â sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed; a sicrhau bod hyn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad o anghenion, a chynllunio dilynol a darpariaeth gofal a chymorth unigol*", rydyn ni'n nodi bod y  cymorth gwell ar gyfer cynhalwyr yn eu galluogi nhw i gyflawni'u deilliannau llesiant eu hunain.

3.7 Ar ôl ymgysylltu â'r bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, eu heiriolwyr, teuluoedd a gweithwyr cymdeithasol, penderfynon ni y byddai newid ein darparwr gofal cartref yn niweidiol. I ddechrau, roedden ni'n meddwl y byddai modd lleihau costau trwy newid darparwr, roedd ein hymgynghoriad wedi nodi buddion corfforol a meddyliol sylweddol o'r wybodaeth, profiad a pharhad o ran gofal a oedd yn cael ei ddarparu. Roedden ni hefyd wedi nodi y byddai modd cynnwys preswylwyr eraill ym Maestrisant yn y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ble y bo'n addas ac yn dilyn asesiad o anghenion. Byddai hyn yn galluogi'r gwasanaeth cyfredol i fwyhau'r gwerth am arian ac efallai darparu gwasanaethau o ansawdd gwell i breswylwyr eraill trwy fod ar y safle.

## Beth yw barn pobl am ein gwasanaethau?

3.8 Rydyn ni'n defnyddio arolygon i fesur ansawdd ein gwasanaethau ac i bennu pa ddeilliannau rydyn ni'n eu cyflawni gan weithio gyda phobl i gyflawni'u hanghenion gofal a chymorth:

3.9 Mae'r tabl isod yn darparu canlyniadau arolwg eleni ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a'r ddau arolwg blaenorol yn 2016-17 a 2017-18. Mae'r arolwg wedi'i seilio ar sampl o oedolion 18 oed neu'n hŷn oedd â chynllun gofal a chymorth ar ddiwrnod llunio'r sampl. Mae'n mesur yr hyn y mae pobl yn ei ddweud sy'n bwysig iddyn nhw.

**Tabl 1: Dulliau allweddol ar gyfer mesur ansawdd gwasanaeth, Gwasanaethau i Oedolion, 2016-17 i 2017-18**

(%)

| | Datganiad | 2016-2017 | 2017-2018 | 2018-2019 | Newid eleni/llynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rydw i'n byw mewn tŷ sy'n cefnogi fy lles. | 87 | 89 | 93 | 🟢 |
| 2 | Mae modd i fi wneud y pethau sy'n bwysig i mi | 49 | 50 | 77 | 🟢 |
| 3 | Rydw i'n teimlo fy mod i'n rhan o'm cymuned | 52 | 52 | 69 | 🟢 |
| 4 | Rydw i'n hapus gyda'r cymorth gan fy nheulu, ffrindiau a chymdogion | 84 | 88 | 97 | 🟢 |
| 5 | Rydw i'n teimlo'n ddiogel. | 76 | 79 | 94 | 🟢 |
| 6 | Rydw i'n gwybod gyda phwy i siarad am fy ngofal a chymorth | 79 | 79 | 83 | 🟢 |
| 7 | Rydw i wedi cael yr wybodaeth neu gyngor cywir pan oedd eu hangen arna i | 79 | 75 | 91 | 🟢 |
| 8 | Rydw i wedi bod yn rhan weithredol o drafodaethau ynglŷn â sut roedd fy ngofal a chymorth wedi cael eu darparu | 73 | 78 | 90 | 🟢 |
| 9 | Roeddwn i wedi gallu cyfathrebu yn fy iaith ddewisol | 93 | 94 | 95 | 🟢 |
| 10 | Cefais i fy nhrin gydag urddas a pharch | 92 | 91 | 97 | 🟢 |
| 11 | Rydw i'n hapus gyda'r gofal a chymorth dwi wedi eu cael | 84 | 84 | 97 | 🟢 |
| 12 | Fy newis i oedd hi i fyw mewn cartref gofal | 67 | 60 | 56 | 🔴 |

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Nodwch: Canrannau wedi'u seilio ar oedolion a oedd wedi ateb "Ie" neu "Weithiau" i bob cwestiwn. Mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu.

3.10 Mae pob mesur ar wahân i un yn dangos newid cadarnhaol rhwng eleni a'r flwyddyn flaenorol. Yr eithriad oedd C12 sy'n ymwneud â'r unigolyn yn dewis bod mewn cartref preswyl. Roedd y mwyafrif o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg - 290 allan o'r sampl o 365 - wedi dweud y byddai'n well gyda nhw beidio ag ateb y cwestiwn.

*Roedd gen i broblem gyda chyffuriau ac roeddwn i wedi symud i Gwm Taf yn chwilio am gyfle i ailddechrau. Mae'r gweithiwr prosiect a'r cynghorwr o'r Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau wedi bod yn wych ac rydw i wedi bod yn sobr ers sawl mis. Roeddwn i wedi ymuno â'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth a nawr dydw i ddim mor unig ac rydw i'n mwynhau bod ymhlith pobl gadarnhaol. Am y tro cyntaf erioed, rydw i'n edrych ymlaen at y dyfodol" (Dyn, 49 oed)*

*"Yn ystod fy ugeiniau cynnar roeddwn i'n cymryd cyffuriau cysgu yn dilyn digwyddiad trawmatig. Roeddwn i wedi colli fy swydd, fy mhartner, fy nghartref ac roeddwn i'n gwaethygu. Doeddwn i ddim yn meddwl byddai modd i fi ddianc! Yn dilyn llawer o berswâd, roeddwn i wedi ymgysylltu â gwasanaethau a chefais fy rhoi ar raglen presgripsiynu cyfnewid. Am y tro cyntaf doeddwn i ddim yn dibynnu ar fy neliwr. Fyddwn i ddim mewn poen bob dydd. Yn araf deg, dechreuais ailadeiladu fy mywyd. Erbyn hyn rydw i wedi bod heb gyffuriau ers 15 mlynedd ac mae gen i 2 o blant*

*hyfryd, ac rydw i'n magu hyder a hunan-barch gyda'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth yng Nghwm Taf. Rydw i'n gobeithio dod o hyd i swydd yn y maes oherwydd fy mod i'n mwynhau helpu pobl ar eu siwrne adfer yn y grŵp" (Menyw, 42 oed)*

3.11 Mae Tabl 2 yn cynnig canlyniadau arolwg eleni a'r ddau arolwg diwethaf. Mae'r arolwg ar sail plant oedd â chynllun gofal a chymorth ar ddiwrnod tynnu'r sampl.

**Tabl 2: Dulliau mesur ansawdd gwasanaeth allweddol, Gwasanaethau i Blant, 2016-17 i 2017-18**

(%)

| | Datganiad | 2016-2017 | 2017-2018 | 2018-2019 | Newidiadau eleni/llynedd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dwi'n byw mewn cartref lle dwi'n hapus | 94 | 99 | 98 | 🔴 |
| 2 | Dwi'n hapus gyda'r bobl dwi'n byw gyda nhw | 96 | 99 | 99 | 🟡 |
| 3 | Dwi'n gallu gwneud y pethau dwi'n hoffi eu gwneud | 97 | 100 | 96 | 🔴 |
| 4 | Dwi'n teimlo fy mod i'n perthyn i'r ardal dwi'n byw ynddi | 92 | 92 | 92 | 🟡 |
| 5 | Dwi'n hapus gyda fy nheulu, ffrindiau a chymdogion | 97 | 97 | 98 | 🟢 |
| 6 | Rydw i'n teimlo'n ddiogel | 97 | 99 | 96 | 🔴 |
| 7 | Dwi'n gwybod gyda phwy i siarad am fy ngofal a chymorth | 97 | 94 | 94 | 🟡 |
| 8 | Dwi wedi cael yr wybodaeth neu gyngor cywir pan oedd eu hangen arna i | 94 | 92 | 89 | 🔴 |
| 9 | Mae pobl wedi gwrando ar fy sylwadau am fy ngofal a chymorth | 96 | 98 | 93 | 🔴 |
| 10 | Dwi wedi gallu defnyddio fy iaith bob dydd | 98 | 99 | 98 | 🔴 |
| 11 | Cefais i fy nhrin gydag urddas a pharch | 98 | 98 | 98 | 🟡 |
| 12 | Dwi'n hapus gyda'r gofal a chymorth dwi wedi eu cael | 96 | 97 | 96 | 🔴 |
| 13 | Rydw i wedi derbyn cyngor, help a chymorth a fydd yn fy mharatoi ar gyfer bywyd fel oedolyn (unigolion 16 ac 17 oed yn unig) | -- | 86 | 90 | 🟢 |

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Nodwch: Mae'r canrannau wedi'u seilio ar blant a oedd wedi ateb "Ie" neu "Weithiau" i bob cwestiwn. Mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu.

3.12 Yn gyffredinol, mae'r tablau uchod yn dangos bod plant sy'n derbyn gofal wedi dangos lefelau boddhad uchel iawn gyda gwasanaethau a chymorth y Cyngor. Roedd dros 90% o blant yn fodlon yn achos pob mesur ar wahân i un. Tra bod y baneri coch yn nodi newid ac yn ymddangos fel gostyngiad mewn boddhad o gymharu â lefelau boddhad uchel iawn y llynedd, mae'r gwahaniaeth yn fach iawn mewn rhai achosion (e.e. 1 pwynt canran). Efallai bydd talgrynnu rhai canlyniadau i'r ffigur lawn agosaf hefyd wedi cael effaith ar rai ffigurau.

3.13 Tu hwnt i rai mesurau deilliant cenedlaethol, mae gan rai o'n meysydd gwasanaeth fecanweithiau ar gyfer casglu adborth. Er enghraifft, o'r 300 o bobl sydd wedi ymateb ar ôl derbyn cymorth gan ein Gwasanaeth Gofal Cartref (Gofal Canolraddol ac Ailalluogi):

- dywedodd 92% eu bod nhw wedi trafod a chytuno ar dargedau, amcanion a deilliannau cyn dechrau derbyn y gwasanaeth.
- dywedodd 94% bod y gwasanaeth yn "dda iawn" neu'n "rhagorol".
- dywedodd 95% eu bod nhw wedi cyflawni'u hamcanion.

- dywedodd 97% eu bod nhw wedi gallu cynnal eu hannibyniaeth neu'i gwella.

3.14 Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd wedi cael ei datblygu ar gyfer ein cartrefi gofal preswyl a hefyd wedi ein galluogi ni i roi mwy o bwyslais ar wrando ar farn a phrofiadau pobl. Rydyn ni'n anfon holiaduron at ein preswylwyr a'u teuluoedd. O 58 preswylydd a 68 aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr sydd wedi dychwelyd ffurflenni mewn un arolwg:

Preswylwyr

- dywedodd 98% bod eu cartrefi gofal wedi dangos diddordeb yn eu hiechyd ac o hyd yn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu bodloni.
- dywedodd 96% bod eu preifatrwydd a'u hurddas wedi cael eu parchu ar bob adeg.
- dywedodd 87% bod eu credoau crefyddol a diwylliannol yn cael eu parchu.

Aelodau'r teulu, ffrindiau ac eiriolwyr

- nododd 94% eu bod nhw'n teimlo fel bod anghenion personol y perthynas/ffrind yn cael eu hasesu'n gyson ac roedden nhw'n hapus iawn bod y cartref yn cwrdd â'u hanghenion.
- dywedodd 91% eu bod nhw'n cytuno'n gryf eu bod nhw wedi derbyn croeso cynnes wrth ymweld â'r cartref gofal
- dywedodd 90% eu bod nhw'n cytuno'n gryf bod staff ar gael ac yn hawdd mynd atyn nhw

3.15 Mae tystlythyr gan un person ifanc yn dangos beth mae modd i'n cymorth ei wneud a'r gwahaniaeth mae'n ei wneud i fywydau pobl.

*"Rydw i'n fachgen 16 oed sydd wedi bod mewn gwasanaeth camddefnyddio sylweddau ers dros 6 mis. Yn ystod yr amser yma, rydw i wedi gweithio gyda fy ngweithiwr achos i edrych ar fy nefnydd o sylweddau a sut i'w reoli. Rydw i wedi gwneud gwaith ynghylch lleihau niwed a beth sy'n achosi fi i gamddefnyddio er mwyn fy helpu i roi'r gorau iddi. Maen nhw wedi fy helpu i reoli sut rydw i'n defnyddio sylweddau i lefel roeddwn i'n fodlon â hi. Oherwydd roeddwn i'n defnyddio sylweddau, roeddwn i wedi ymddieithrio â sawl peth roeddwn i'n ei fwynhau; gyda chymorth rydw i wedi dechrau ymgysylltu â phethau rydw i'n eu mwynhau. Gyda chymorth roedd modd i fi gymryd rhan yn y Daith Gerdded Adfer (Recovery Walk) i fyny Pen y Fan ac roedd hi'n ddiwrnod gwych oherwydd doeddwn i erioed wedi bod yno o'r blaen ac roedd modd i fi gwrdd â phobl newydd. Ar hyn o bryd rydw i'n mynychu'r grŵp gwasanaeth newydd i bobl ifainc ac rydw i'n mwynhau oherwydd bod cyfle gyda fi i gwrdd â phobl ifainc newydd ac edrych ar beth mae modd i ni'i wneud i helpu eraill. Rydw i wedi dod o hyd i swydd ac rydw i hefyd yn gweithio sifftiau yn y clwb rygbi lleol. Hoffwn i ddiolch i chi oherwydd fy mod i heb ddefnyddio sylweddau ers dros 10 wythnos ac mae hyn o ganlyniad i help a chymorth gan wasanaethau. Mae fy mherthynas gyda fy nheulu wedi gwella llawer gan fod modd i mi siarad yn agored â nhw os oes gen i broblem, doeddwn i ddim wedi gallu gwneud hyn o'r blaen oherwydd roeddwn i wedi defnyddio sylweddau i fy helpu. Diolch"*

3.16 Mae holl ganlyniadau'r arolwg ac unrhyw sylwadau ategol gan bobl sy'n defnyddio'n gwasanaethau yn cael eu defnyddio i gynllunio datblygiadau pellach er mwyn gwella'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. Mae dulliau hunan-asesu hefyd yn cael eu defnyddio i nodi gwelliannau posibl.

## Cwynion a Chanmoliaeth

3.17 Rydyn ni'n croesawu ac yn gwerthfawrogi'r ganmoliaeth rydyn ni'n ei derbyn. Er ein bod ni'n siomedig i glywed am achosion lle mae gwasanaeth heb gwrdd â disgwyliadau unigolion, rydyn ni hefyd yn gwerthfawrogi'r bobl sy'n rhoi o'u hamser i ddweud wrthyn ni. Mae'r tabl

isod yn crynhoi nifer y sylwadau a chanmoliaeth sydd wedi cael eu derbyn dros y pedair blynedd ddiwethaf.

**Tabl 3: Nifer y sylwadau a chwynion wedi'u derbyn, Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant, 2015-16 i 2018-19**

| | | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau i Oedolion | Nifer y cwynion a ddaeth i law | 68 | 82 | 51 | 56 |
| | Nifer y canmoliaethau a ddaeth i law | 156 | 102 | 102 | 124 |
| Gwasanaethau i Blant | Nifer y cwynion a ddaeth i law | 89 | 106 | 114 | 32 |
| | Nifer y canmoliaethau a ddaeth i law | 86 | 62 | 41 | 39 |
| **Cyfanswm** | **Nifer y cwynion a ddaeth i law** | **157** | **188** | **165** | **88** |
| | **Nifer y canmoliaethau a ddaeth i law** | **242** | **164** | **143** | **163** |

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

3.18 Mae'r flwyddyn ddiwethaf yn galonogol ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant, roedd mwy o ganmoliaethau na chwynion.

3.19 Tra ein bod ni'n bwriadu atal yr angen i bobl gwyno yn yr achos gyntaf, pan fydd cwyn yn cael ei chyflwyno rydyn ni'n ei hystyried yn gyfle i wella beth rydyn ni'n ei wneud a dysgu i sicrhau nad yw materion tebyg yn codi yn y dyfodol. Er enghraifft, yn y Gwasanaethau i Oedolion, mae hyn wedi arwain at:

- Datblygu pecyn wybodaeth ar gyfer rhieni oedolion sy'n symud i fyw â chymorth.
- Gwelliannau i brydlondeb trefniadau gwneud penderfyniadau o ran y broses bontio ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu cymhleth.
- Gwelliannau i weithdrefnau rheoli galwadau ychwanegol ar gyfer Gofal Cartref gan ddefnyddio negeseuon.

3.20 Rydyn ni'n nodi mai'r unigolion eu hunain yw'r bobl orau i wneud penderfyniadau mewn perthynas â'u llesiant. Yn ei arolygiad diweddar mewn perthynas â'n gwasanaethau, mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi tynnu sylw at y systemau effeithiol sydd ar waith i gefnogi hyn. Roedd yr arolygiad hefyd wedi nodi bod ein hymarferwyr yn gryf eu cymhelliad ac wedi hen arfer â sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed; gan sicrhau eu bod nhw'n cael eu cynnwys yn yr asesiad o anghenion a chynllunio dilynol a darparu gofal a chymorth unigol. Roedd wedi tynnu sylw at y ffaith bod angen gwneud rhagor o waith ar gyfer cynhalwyr ac rydyn ni'n cytuno â hyn. Rydyn ni wedi nodi hyn fel blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## Y Gymraeg

3.21 Mae bron i 28,000 o bobl yn Rhondda Cynon Taf yn siarad Cymraeg (Cyfrifiad 2011) sef ychydig yn fwy na 1 ym mhob 10 person (12.3% o'r boblogaeth). Mae Safonau'r Gymraeg yn berthnasol i bob Awdurdod Lleol. Mae hyn yn golygu bod modd i bob person yng Nghymru ddisgwyl yr un agwedd tuag at y Gymraeg mewn gwasanaethau, gan sicrhau ei bod hi'n cael ei thrin yn yr un modd â'r Saesneg a bod pob Cyngor yn cynnig y cyfle i bobl dderbyn

gwasanaethau gennym ni, yn ogystal â'r rheiny sy'n cael eu hariannu gennym ni, trwy'r Gymraeg.

3.22 Yn 2018-19, rydyn ni wedi gwella'n trefniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n dymuno cyfathrebu trwy'r Gymraeg. Mae ein dull yn cael ei lywio gan ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau sy'n cwrdd â gofynion unigolion yn ogystal â gofynion Safonau'r Gymraeg a "Fframwaith Strategol Dilynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol" ond hefyd gan ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion y bobl. Rydyn ni'n gweithio'n agos â'n cydweithwyr yng Ngwasanaethau Cymraeg y Cyngor ac yn manteisio ar gylch trafod chwarterol "Mwy Na Geiriau" Cwm Taf i sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r gofynion statudol.

3.23 Rydyn ni wedi adolygu'n cynnydd yn erbyn Safonau'r Gymraeg. O ganlyniad i hynny, mae ein holl ohebiaeth a deunydd ysgrifenedig ar gael i'r Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant, gan gynnwys gwybodaeth ar-lein a'n cynnwys ar wefan DEWIS Cymru, y wefan genedlaethol ar gyfer pobl sy'n chwilio am wybodaeth neu gyngor am lesiant, bellach ar gael yn ddwyieithog. Os yw rhywun yn gohebu â ni yn Gymraeg, byddwn ni'n ymateb yn Gymraeg. Mae ein holl staff yn effro i ofynion Safonau'r Gymraeg a beth mae hyn ei olygu ar gyfer sut maen nhw'n gweithio. Rydyn ni hefyd yn monitro'n holl ddarparwyr gwasanaeth allanol i sicrhau bod pob un yn cydymffurfio â'r Safonau.

3.24 Mae ein staff rheng flaen yn gwneud cynnig rhagweithiol o ran cyfathrebu trwy'r Gymraeg yn unol â dewis yr unigolyn. Mae trefniadau'n cael eu gwneud wedyn i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg gael sgwrs gyda nhw a gweithio gyda nhw. Rydyn ni'n nodi dewis iaith unigolion ar ein system, sydd yna'n llywio cyfathrebu olynol, ac rydyn ni'n gwirio dewis iaith wrth wirio data craidd. Doedden ni ddim wedi derbyn unrhyw gwynion ynglŷn â gwasanaethau'r Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant sydd ar gael trwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn hunanfodlon, a byddwn ni'n parhau i weithio mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion unigolion.

3.25 Rydyn ni'n parhau i annog a chefnogi staff i ddysgu'r Gymraeg mewn sawl ffordd, gan gynnwys sesiynau dysgu rhaglenni a chyrsiau (gan gynnwys cyrsiau dwys), a modiwlau hyfforddiant ar-lein. Mae ein gwasanaethau wedi parhau i ddatblygu sy'n ein galluogi i fanteisio ar ddulliau cymorth Cymraeg ar eu cyfrifiaduron. Rydyn ni hefyd yn defnyddio ap "Mwy Na Geiriau" i gefnogi ein gweithwyr cymdeithasol a staff gofal. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd 107 aelod o staff y Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant ein hyfforddiant gorfodol Lefel 1 ac roedd 14 wedi derbyn cymorth ychwanegol gan ein Tiwtor y Gymraeg. Cafodd yr ail ran ei darparu ar ôl i nodi bod nifer o'n preswylwyr ar safle cynllun Tŷ Pentre yn siarad Cymraeg. Er y byddai'n fanteisiol i ni feddu ar ragor o staff sy'n siarad Cymraeg, rydyn ni'n credu bod gyda ni ddigon o siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd i gwrdd â'r galw ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darparu trwy'r Gymraeg.

### Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf?

- Sicrhau cydymffurfiaeth o ran dewis Cymraeg wrth i'r data craidd gael ei wirio a sicrhau bod System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru wedi'i diweddaru.

- Gweithio gyda darparwyr allanol drwy delerau ac amodau'r contract i sicrhau bod gofynion Cymraeg yn cael eu bodloni.

# 4. Hyrwyddo a gwella llesiant y rheiny sy'n derbyn cymorth gennym ni

4.1 Un o flaenoriaethau'r Cyngor yw hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarae rôl bwysig. Mae helpu i wella llesiant y bobl sydd angen gofal a chynhalwyr sydd angen cymorth wrth galon ein gwaith. Rydyn ni'n ceisio gwneud gwahaniaeth go iawn i'w bywydau. Does dim modd i ni wneud hyn ar ein pen ein hunain.

4.2 Rydyn ni'n gweithio'n agos â nifer o sefydliadau i helpu plant sy'n agored i niwed, pobl ifainc, oedolion a theuluoedd. Rydyn ni'n ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a gwelliannau a newidiadau er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen ar bobl, pan fyddan nhw angen y cymorth hwnnw.

4.3 Wrth ddarparu ein gwasanaethau, rydyn ni'n parhau i wynebu heriau mawr - yn ariannol, o ran newidiadau i'r boblogaeth ac eraill. Dim ond trwy weithio gyda'n gilydd y mae modd i ni ymateb i'r heriau yma. Un ffordd o wneud hyn yw trwy gynnal partneriaeth ranbarthol. Ar y cyd â'n partneriaid, rydyn ni wedi edrych ar anghenion ein poblogaeth ac rydyn ni wedi nodi'r camau gweithredu sydd angen i ni'u cymryd dros gyfnod o bum mlynedd. Mae Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf 2018-23[1] yn disgrifio beth fydd yn cael ei wneud a'r sylfaen ar gyfer ein gwaith.

4.4 Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn disgrifio beth rydyn ni wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cynnwys blaenoriaethau a gafodd eu nodi ar gyfer 2019-20 ar ôl i adolygiadau gael eu cyflawni'r flwyddyn flaenorol. Mae adolygiadau sydd wedi cael eu cyflawni gan sefydliadau eraill hefyd wedi hysbysu beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2019-20. Datblygiadau rydyn ni'n credu y bydd yn ein helpu ni i wella'r gwasanaethau a'r cymorth rydyn ni'n eu cynnig unwaith eto, ac yn bwysicach byth, bywydau'r rheiny sy'n eu derbyn nhw yw'r blaenoriaethau hyn.

## (a) <u>Gweithio gyda phobl i bennu a chyd-baratoi deilliannau lles personol maen nhw eisiau'u bodloni</u>

### Beth oedd ein cynlluniau y flwyddyn ddiwethaf?

4.5 Yn rhan o'n hunan-werthusiad, rydyn ni wedi penderfynu ar ystod o themâu blaenoriaeth i gefnogi plant ac oedolion, i'w cyflawni yn ystod 2018-19 ac roedden ni wedi cynnwys y blaenoriaethau hyn yn Adroddiadau Blynyddol y llynedd. Fe ddywedon ni y byddem yn:

- Blaenoriaethu integreiddio gwasanaethau ar gyfer: Pobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia; Pobl ag anableddau dysgu; Cynhalwyr, gan gynnwys cynhalwyr ifainc; Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Integredig; a Phlant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

- Sicrhau modelau llety newydd i wella deilliannau i'r unigolion hynny sydd angen cefnogaeth i fyw'n annibynnol, a pharhau i weithio ar y cyd â Linc Cymru i gyflwyno Rhaglen Datblygu Tai Gofal Ychwanegol y Cyngor.

- Gwneud defnydd gwell o dechnoleg i gynnal annibyniaeth pobl yn eu cartrefi ac atal twf mewn anghenion gofal.

- Gweithredu'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth a sicrhau ymrwymiad partneriaid mewnol ac allanol i gyflwyno'r Rhaglen Teuluoedd Cydnerth.

- Hyrwyddo ymgysylltiad â Phlant sy'n Derbyn Gofal ac asiantaethau partner i sicrhau cydweithio a chlywed llais y plant a'r bobl ifainc.

- Gweithredu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu Cenedlaethol yn yr ardal er mwyn sicrhau bod y plant sy'n cael eu mabwysiadu yn cyrraedd eu llawn botensial ac yn cael cyfleoedd i gyflawni.

- Sicrhau ein bod yn cynnig taliad uniongyrchol i bawb sydd ag anghenion gofal cymwys.

## Pa mor llwyddiannus oedden ni a pha wahaniaeth wnaethon ni?

### Gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth

4.6 Llynedd, roedden ni wedi darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i 6,800 o oedolion. Dyma gynnydd o 4% dros y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd yma llawer yn llai na'r naid o 30% rhwng 2015-16 a 2017-18 ond yn parhau â'r duedd o alw cynyddol ar gyfer y gwasanaeth.

4.7 Yn ystod y flwyddyn, cafodd 2,990 o bobl eu hasesu ar gyfer anghenion gofal a chymorth, sef cynnydd o 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r rheiny, roedd bron 3 o bob 4 asesiad (72.74%) wedi arwain at lunio cynllun gofal a chymorth. Roedden ni wedi methu'n targed o 70.15% ar gyfer y flwyddyn sydd yr un peth â'n cyflawniad ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Rydyn ni'n anelu at y ffigwr is gan fod hyn yn golygu ein bod ni'n gwella o ran helpu pobl i ddod o hyd i ddatrysiadau gwahanol i gynllun gofal a chymorth ffurfiol.

4.8 Mae nifer yr adolygiadau ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth 7% yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Cafodd 4,286 adolygiad ei gwblhau o'i gymharu â 4,013 yn 2017-18. Roedd bron i hanner yr adolygiadau (49.6%) wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlen gytûn, sy'n welliant bach o'i gymharu â'r 46.5% y flwyddyn flaenorol.

4.9 Roedden ni wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r Garfan Adolygu Cymunedau i werthuso'i heffaith ar gyflawniad ac ansawdd y gwasanaeth. Roedd yr adolygiad wedi pennu'r cyfleoedd a'r heriau o ran sut rydyn ni'n cyflawni a gwneud argymhellion er mwyn i'r awdurdod eu hystyried. Byddwn ni'n defnyddio'r adroddiad yma yn 2019-20 i'n helpu i wella'r gwasanaeth eto.

4.10 Gan ystyried y rôl y mae cynhalwyr yn eu chwarae o ran helpu pobl i aros yn eu cartrefi a'u cymunedau, mae cymorth ystyrlon a buddiol yn hanfodol. Byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar wneud hyn fel blaenoriaeth. Dros y deuddeg mis, cafodd 246 asesiad o anghenion cymorth cynhalwyr ei gyflawni. O'r rheiny, arweiniodd 84 (34%) at lunio cynllun cymorth ar gyfer y cynhaliwr. Mae hyn yn cymharu i 206 a 39 (19%) ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

4.11 Rydyn ni wedi adolygu ein Cynllun Cynnal y Cynhalwyr. O ganlyniad, rydyn ni wedi buddsoddi yn y Gwasanaeth a'i gapasiti gyda'r bwriad o wella'r defnydd o asesiadau ar gyfer cynhalwyr.

**Tabl 4: Dangosydd cyflawniad cenedlaethol allweddol - Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | Ein Targedau | Ein Cyflawniad | Cyflawniad yn erbyn Targed |
|---|---|---|---|
| Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y Gwasanaeth | 74.64% | 80.00 | ● (gwyrdd) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth ac sydd ddim wedi cysylltu â'r gwasanaeth ers dros 6 mis (Mesur 23) | | | |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.12 Fel y mae'r tabl uchod yn dangos, doedd 4 o bob 5 oedolyn sydd wedi derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth gan ein gwasanaeth ddim wedi cysylltu â cysylltu â ni yn ystod y 6 mis dilynol. Roedden ni wedi mynd tu hwnt i'n targed ar gyfer eleni ac wedi gwneud yn well na ffigur y flwyddyn flaenorol sef 74.62%.

4.13 Roedd ein Gwasanaethau i Blant wedi darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth i 5,670 o blant a'u teuluoedd. Roedd hyn wedi nodi cynnydd o 14% yn erbyn y niferoedd a gafodd eu helpu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd yna gynnydd tebyg (11%) yn nifer yr asesiadau a gafodd eu cwblhau yn ystod 2018-19. Cafodd cyfanswm o 7,170 o asesiadau eu cyflawni eleni, sef cynnydd o 6,488 yn 2017/18.

4.14 Mae'r cynnydd yn lefel y cymorth a gafodd ei ddarparu a'r asesiadau a gafodd eu cyflawni o ganlyniad i welliannau rydyn ni wedi'u gwneud er mwyn i bobl fanteisio ar wasanaethau ein Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth trwy ein Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

**Tabl 5: Dangosydd cyflawniad cenedlaethol allweddol - Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | **Ein Targedau** | **Ein Cyflawniad** | **Cyflawniad yn erbyn Targed** |
|---|---|---|---|
| Canran yr asesiadau a gafodd eu cwblhau ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol. | 98% | 97.14% | |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.15 Roedd ein cyflawniad o ran cwblhau asesiadau ar gyfer plant o fewn yr amserlenni statudol ychydig yn is (0.86%) na'n targed o 98%. Fodd bynnag, dyma welliant nodedig o'i gymharu â ffigur y llynedd, sef 93.3%.

**Astudiaeth Achos - Gweithio gyda phobl i bennu a chyd-baratoi deilliannau lles personol maen nhw eisiau'u cyflawni.**

Cysylltodd Mr A â'r Garfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i geisio cymorth iddo'i hun a dau o'i blant ifainc. Yn dilyn sgwrs "Beth sy'n Bwysig", roedd Mr wedi gallu nodi ei fod yn teimlo'n unig, ac yntau'n rhiant sengl, ac roedd e'n teimlo fel nad oedd modd iddo fanteisio ar gynlluniau cymunedol ac roedd hyn yn cael effaith ar y gofal roedd yn ei ddarparu i'w blant.

Cafodd Mr A ei atgyfeirio i'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Roedd asesiad wedi nodi fod angen ymyrraeth tymor byr ar ei deulu er mwyn ei alluogi i feithrin hyder wrth rianta a gwneud newidiadau cynaliadwy sydd o fudd i'w blant. Roedd hyn wedi arwain at y teulu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned a does dim angen ymyrraeth gan y Gwasanaethau i Blant bellach.

## Integreiddio gwasanaethau

4.16 Rydyn ni'n parhau i weithio gyda nifer o sefydliadau i ddarparu gwasanaethau mwy integredig. Mae edrych ar ffyrdd o wneud pethau mewn ffordd wahanol yn rhan allweddol o'r ffordd rydyn ni'n gweithio. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy dynnu ar ganlyniadau adolygiadau o wasanaethau a gwerthusiadau, ein systemau rheoli perfformiad ac adborth gan ddefnyddwyr

gwasanaeth. Rydyn ni hefyd yn manteisio ar gyfleoedd e.e. os yw swydd wag yn codi o fewn y garfan, rydyn ni'n ystyried a oes modd gwneud gwelliannau neu arbedion trwy ddefnyddio adnodd mewn ffordd wahanol. Mae hyn yn deillio o'r angen i sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn gynaliadwy mewn cyfnod heriol a gwneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau cyfyngedig a gostyngol ond hefyd ein nod o ddarparu cymorth a chyngor gwell i bobl.

4.17 Bydd rhagor o wybodaeth ynghylch datblygu gwasanaethau mwy integredig a gweithio gyda'n sefydliadau partner i'w gweld trwy gydol yr adroddiad.

4.18 Cafodd ein gwaith ar y cyd â'r sector tai yn Rhondda Cynon Taf ei gynnwys mewn adroddiad a gafodd ei gomisiynu gan Gymdeithas Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r astudiaeth yn rhan o'r gwaith i weithredu "Cymru Iachach" a chafodd y gwaith ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Tynnwyd sylw at ein dwy fflat hyfforddi â chymdeithas tai Trivallis, sy'n helpu unigolion mewn gofal i symud i fyw'n annibynnol. Roedd sylw hefyd wedi cael ei roi i'n gwaith gyda Chymdeithas Tai Cynon Taf o ran ailfodelu'i eiddo Llys Pen Llew yn 19 fflat un ystafell wely ar gyfer oedolion ag anawsterau dysgu.

## Darparu modelau llety newydd

4.19 Rydyn ni wedi ymrwymo i wella llesiant preswylwyr gan sicrhau bod modd i bobl fyw a heneiddio'n dda yn eu cartrefi yn eu cymunedau. Mae modd gweld hyn trwy ein strategaeth uchelgeisiol i foderneiddio opsiynau ar gyfer pobl hŷn.

4.20 Llety Gofal Ychwanegol yw un o'r ffyrdd rydyn ni'n symud hyn ymlaen. Mae'r model wedi'i ddylunio i wella llesiant ac annibyniaeth pobl hŷn ac mae'n opsiwn gwahanol i leoliadau cartref gofal sefydliadol. Mae'n darparu rhagor o ddewis i breswylwyr hŷn gan eu galluogi nhw i fyw bywydau iach a diogel cyhyd ag y bo modd, gan gynyddu annibyniaeth a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol.

4.21 Rydyn ni wedi gwneud cynnydd da dros y flwyddyn.

- Mae'r llety Gofal Ychwanegol ar safle hen Gartref Gofal Maes-y-ffynnon yn Aberaman wrthi'n cael ei adeiladu, ac mae disgwyl iddo agor yn 2019. Bydd y cyfleuster yn darparu 40 uned o lety modern yn ogystal â chyfleusterau cymunedol fel ystafell fwyta; salon trin gwallt; ystafell i ymwelwyr; ystafell fyw, ystafell golchi dillad ac ystafell weithgareddau. Bydd llety seibiant hefyd yn cael ei ddarparu.

- Cafodd ymgynghoriad cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer 60 uned o lety ar hen safle Llys Ynadon, Pontypridd, ei gyflawni yn Awst 2018. Bwriad y cynnig yw sicrhau bod trefniadau cynaliadwy ar waith i gomisiynu lefelau gofal cynyddol ar gyfer pobl o fewn y cynllun; gan gynnwys gofal dementia.

- Rydyn ni wedi bwrw ymlaen â'r gwaith cynllunio ar gyfer hen safle Ysbyty George Thomas, Treorci. Rydyn ni hefyd wedi archwilio defnydd o safle yn Y Porth ac rydyn ni wedi nodi safle cyfleus yn Aberpennar.

4.22 Rydyn ni hefyd wedi gwneud cynnydd da ar gynllun tai lloches Coedlan y Goron, Treorci, mewn partneriaeth â Trivallis. Bydd y datblygiad yn creu llety â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

4.23 Yn rhan o'n hymrwymiad i ddarparu modelau llety newydd, rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag Ategi i archwilio cyfleoedd i gynyddu argaeledd darpariaeth "Rhannu Bywydau"

gyfredol. Y bwriad yw ehangu'r model gofal i gynnig cymorth byr dymor a hir dymor i ystod eang o bobl sydd ag angen wedi'i asesu. Rydyn ni wedi ail-lansio cynllun i nodi a recriwtio cynhalwyr ychwanegol. O ganlyniad i hyn, mae nifer y lleoliadau byr dymor a hir dymor wedi cynyddu ac mae gwaith i recriwtio rhagor o gynhalwyr yn mynd rhagddo.

4.24 Rydyn ni wedi adolygu'r trefniadau cysgu i mewn yn ein cynlluniau byw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu i ddarparu dealltwriaeth well o ran pryd bydd angen cymorth a phennu'r lefelau cymorth gorau posibl trwy gyfuno staff a thechnoleg mewn modd effeithiol. Bydd y canfyddiadau o'r treialon yn cael eu gweithredu, mewn partneriaeth, yn gynnar yn 2019.

## Gwell Defnydd o Dechnoleg

4.25 Rydyn ni wedi gorffen llunio'r strategaeth technoleg gynorthwyol i gomisiynu model newydd ar gyfer offer, technoleg gynorthwyol, larymau yn y gymuned a gwasanaethau ymateb. Cafodd y model drafft ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mawrth. Bydd gwaith datblygu'r cynllun yn cychwyn cyn gynted ag y bydd cadarnhad o gyllid trawsffurfio yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

4.26 Mae ein gwaith gydag Innovate Trust wedi parhau. Rydyn ni wedi treialu defnyddio technoleg gynorthwyol i gefnogi pobl ag anableddau dysgu i fyw'n fwy annibynnol yn y gymuned leol sy'n well iddyn nhw ac yn eu helpu nhw i leihau costau gwasanaethau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi sicrhau cyllid ychwanegol o gronfa i ehangu technoleg a phrynu dyfeisiau clyfar ar gyfer yr holl bobl mae'n eu cefnogi yn yr ardal leol [Tachwedd 2018 - Ionawr 2019]. Mae hyn yn golygu y bydd modd i 54 person arall ag anableddau dysgu yn yr ardal fanteisio ar dechnoleg glyfar.[2] I gefnogi'r cynllun, mae'r Ymddiriedolaeth wedi recriwtio a hyfforddi dau Wirfoddolwr ag anableddau dysgu i gyflawni rôl Hyrwyddwr Digidol a gweithredu fel mentoriaid cyfoed a helpu'u ffrindiau i gael mynediad i'r dechnoleg glyfar newydd yma a'i defnyddio.

4.27 Mae'r gwaith wedi cael ei ehangu i ddatblygu "cyfleoedd oriau dydd sy'n canolbwyntio ar ddeiliannau" yn gychwynnol ar gyfer preswylwyr sy'n byw mewn Llety â Chymorth. Rydyn ni hefyd wedi cytuno i gynyddu cyfranogiad gwirfoddolwyr ymhlith poblogaeth Prifysgol De Cymru.

4.28 Rydyn ni wrthi'n rhoi cymorth i Gymdeithas Tai Unedig Cymru gyda gwaith datblygu Tŷ Technoleg yn Y Gilfach-goch, dyma fydd yr eiddo cyntaf o'i fath yn yr ardal. Mae'r tŷ yn cael ei gyllido gan Gymdeithas Tai Unedig Cymru yn rhan o gynllun peilot i werthuso sut mae modd i dŷ technoleg hyrwyddo annibyniaeth, llesiant ac ymgysylltiad ar gyfer tenantiaid.

## Y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth

4.29 Rydyn ni wedi gweithredu ein Rhaglen Teuluoedd Cydnerth ac wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu a gweithredu'r rhaglen. Mae'r gwasanaeth, sy'n manteisio ar ein trefniadau "Carfan o amgylch y Teulu (TAF)" gwreiddiol, yn ceisio sicrhau amser ymateb gwell, diagnosis mwy clir ac asesiad o angen, cael gwared ar rwystrau i gynyddu gwydnwch, a darpariaeth gwasanaethau cymorth i deuluoedd well.

4.30 Mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn rhan gynhenid o'n dull. Cafodd Barnardo's ei gomisiynu i ddarparu elfen y Garfan o amgylch y Teulu o'r gwasanaeth. Mae elfennau craidd eraill - Y Garfan Asesu, Broceriaeth ac Adolygu, Y Garfan Teuluoedd a Mwy a'r Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol - yn cael eu darparu gennym ni. Trwy weithio'n agos â sefydliadau eraill, rydyn ni wedi cynnwys gwasanaethau cymorth ychwanegol, gan gynnwys Gweithiwr Cymorth i Bobl Ifainc sy'n Ddigartref (gyda Llamau), Ymwelwyr Iechyd Arbenigol a Nyrsys Meithrin Cymunedol, a'n Fframweithiau Rhianta Cyffredinol a Chymorth i Bobl Ifainc.

4.31 Roedden ni wedi amcangyfrif y byddai tua 1,200 o deuluoedd yn cael eu hatgyfeirio i'n Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth yn ystod ei flwyddyn gyntaf o weithredu. Dechreuodd y gwasanaeth yn Ionawr 2018. Erbyn Awst 2018, roedd y gwasanaeth eisoes wedi ymgysylltu â dros 1,000 o deuluoedd. Mae gwaith dadansoddi mewn perthynas ag atgyfeiriadau'n nodi bod y niferoedd yn gyson a dyw hi ddim yn edrych fel bod hyn yn mynd i arafu. Adeg yma, roedd y gwaith dadansoddi yn awgrymu cynnydd posibl o 60% dros y ffigur a gafodd ei amcangyfrif i 2,000. Yn yr achos hynny, roedd nifer yr atgyfeiriadau wedi arafu cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, ar gyfer y flwyddyn gyfan cafodd 1,608 o atgyfeiriadau eu derbyn, sydd llawer yn fwy na'r ffigur a gafodd ei amcangyfrif (34%). Mae'r gwasanaeth yn helpu teuluoedd â phroblemau corfforol a phroblemau iechyd meddwl, rhieni sy'n gwahanu, trawma yn ystod plentyndod, camdriniaeth neu droseddu neu gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol. Yn bwysig, roedd dim ond 1 ym mhob 20 (6%) o atgyfeiriadau angen cael eu huwchgyfeirio i'r Gwasanaethau i Blant, sy'n golygu bod y mwyafrif helaeth wedi cael eu rheoli ar lefel ymyrraeth llawer is ac, o bosib, ar gam cynharach.

4.32 Gan ystyried natur wirfoddol y gwasanaeth, bydd yna o hyd posibilrwydd y bydd rhai teuluoedd yn gwrthod ymgysylltu â'r cymorth sy'n cael ei gynnig. Mae cyfradd cwblhau'r rhaglen ymyrraeth, sef 72%, yn awgrymu bod mwyafrif y teuluoedd yn dewis ymgysylltu. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant o 22% ar gyfraddau ymgysylltu 2016-2017 gyda'r gwasanaeth blaenorol. Mae hyn yn galonogol. Fodd bynnag, rydyn ni wedi ymrwymo i wella diddordeb yn y cynllun lle mae modd gwneud hynny. Mae ein gwerthusiad yn nodi bod mwy na 9 ym mhob 10 teulu oedd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth (95%) wedi elwa o'r help a'r cymorth a gafodd eu darparu.

**Astudiaeth Achos - Y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth**

Cafodd atgyfeiriad ei wneud gan Ymwelydd Iechyd o ganlyniad i bryderon am blentyn a oedd yn byw gyda'i fam, llystad a'i frodyr/chwiorydd. Roedd gan bob un o'r plant broblemau iechyd, ac roedd y fam yn ceisio rheoli'r rhain gyda chymorth y fam-gu ar ochr y fam. Roedd ymchwiliadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â phroblemau iechyd y fam hefyd. Roedd y llystad yn alcoholig sydd wedi ceisio rhoi'r gorau i alcohol ar sawl achlysur. Roedd rhaid iddo roi'r gorau i'w swydd oherwydd ei ddibyniaeth ar alcohol oherwydd roedd ei swydd yn cynnwys gyrru. Roedd e'n treulio llawer o amser yn y gwely, felly roedd y fam yn cwblhau'r holl dasgau sy'n gysylltiedig â threfn bywyd y teulu. Roedd gan y fam bryderon ynghylch ymddygiad plentyn arall hefyd; roedd yr ysgol wedi nodi ei fod yn aflonyddgar a doedd e ddim yn gwrando.

Roedd y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth wedi helpu'r tad i fynychu'i glinig galw heibio cyntaf er mwyn mynd i'r afael â'i broblemau ag alcohol. Cafodd yr atgyfeiriad ei ddilyn ag asesiad a chymorth parhaus, gan gynnwys apwyntiadau gyda'r Meddyg Teulu i fynd i'r afael â'i iselder. Cafodd meddyginiaeth ei rhagnodi. O ganlyniad i hynny roedd y tad wedi nodi ei fod yn teimlo'n 'fwy iach' nag yw wedi teimlo mewn blynyddoedd. Roedd y gwasanaeth wedi gwneud ymholiadau ynghylch sesiynau hyfforddi er mwyn iddo fagu hyder a rhoi rhywbeth iddo ganolbwyntio arno gyda'r bwriad o ddod o hyd i waith, ac aeth i sesiynau hyfforddiant CymunedauAmWaith. Roedd yr ysgol wedi nodi bod ymddygiad y plentyn wedi gwella ac mae'r rhieni a'r ysgol mewn cysylltiad i sicrhau bod ei ymddygiad cadarnhaol yn parhau. Mae'r perthynas rhwng y rhieni wedi gwella a nodwyd eu bod nhw wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel teulu.

## Rhagor o ymgysylltu â Phlant sy'n Derbyn Gofal

4.33 Yn unol â'n cynllun gweithredu, rydyn ni wedi hyrwyddo ymgysylltu gwell â phlant sy'n derbyn gofal. Rydyn ni wedi gwneud hyn mewn sawl ffordd ac rydyn ni wedi parhau gyda'n

hymdrechion i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Mae Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl ifainc bellach yn derbyn dogfennau ymgynghori ar gyfer pob adolygiad, gan ddibynnu ar oedran. Mae eu rhieni a rhieni maeth hefyd yn derbyn yr un dogfennau. Caiff y sylwadau sydd wedi'u nodi yn y dogfennau yma'u defnyddio i hysbysu'r broses adolygu a'r gwaith cynllunio ar gyfer unigolion. Mae grŵp o bobl ifainc, y "Fforwm Glasbrint", yn cwrdd yn gyson er mwyn casglu barn pobl ifainc i hysbysu datblygiadau, gwerthuso a chyflawniad mewn perthynas â'r gwasanaeth. Maen nhw'n aelodau o'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol Mae'r grŵp hefyd yn gweithio gyda staff o'r gwasanaeth 16+ i ddatblygu fframwaith cymorth ar gyfer gadael gofal a strategaeth tai. Fel sydd wedi'i nodi yn Rhan 3 o'r adroddiad yma, roedden ni hefyd wedi gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal i ddatblygu'r wefan "Dwy Ochr/Two Sides."

4.34 Ers cyflwyno'r Fframwaith Eirioli Cenedlaethol, mae gan bob plentyn a pherson ifanc fynediad i eiriolaeth ac yn derbyn 'cynnig rhagweithiol'. Mae hyn yn sicrhau bod eiriolwr annibynnol yn ymweld â'r holl blant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal neu sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y gwasanaeth eirioli 303 o atgyfeiriadau newydd, cafodd 171 cynnig rhagweithiol ei gynnal a chafodd eiriolaeth ar sail problemau ei chynnig i 132 o bobl ifainc. Cafodd plant a phobl ifainc eu cefnogi a'u cynrychioli mewn 84 cyfarfod ffurfiol, gan gynnwys 39 cyfarfod Amddiffyn Plant a 39 cyfarfod Plant sy'n Derbyn Gofal.

4.35 Mae'r weithred uchod yn ymateb i argymhelliad sydd wedi'i nodi yn adroddiad "Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di", a gafodd ei seilio ar arolwg o blant 4 i 18 oed yn yr ardal yn gynnar yn 2018. Roedd yr adroddiad, [3]a gafodd ei gyhoeddi yn Ebrill 2018, yn pwysleisio pwysigrwydd gweithio gyda phlant a phobl ifainc i sicrhau eu bod nhw'n cael gwybod pryd a pham mae penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn perthynas â'u gofal.

4.36 Rhaid i leisiau plant gael eu clywed wrth wneud penderfyniadau sy'n cael effaith arnyn nhw, ac rydyn ni wedi ymrwymo i wneud hyn yn dda. Rydyn ni'n defnyddio'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd i wneud yn siwr bod hyn yn digwydd trwy wneud yr holl wiriadau angenrheidiol yn erbyn y safon. Mewn ymateb i'r adroddiad, byddwn ni'n datblygu gwaith Hanes Bywyd. Rydyn ni wedi sefydlu system i sicrhau bod y gwaith yn parhau trwy gydol siwrne gofal y plentyn ac rydyn ni'n ei gweithredu. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer Ysgolion yn pennu safonau y mae angen eu bodloni pan fydd plant yn derbyn gofal. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno'r Arloeswyr Gofal Maeth. Eu rôl nhw yw helpu rhieni maeth eraill i gyfathrebu ag ysgolion mewn perthynas â phroblemau addysg y mae plant yn eu gofal efallai'n eu profi.

4.37 Mae ein cynlluniau i weithredu'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi cael eu gohirio. Mae'r Fframwaith Cymorth Mabwysiadu Cenedlaethol ar fin cael ei gyhoeddi. Er doedd dim modd i ni gyflawni gwaith penodol ar y Fframwaith, rydyn ni wedi cynnal archwiliad o'n system gyfredol, ac mae fframwaith lleol dros dro wedi cael ei weithredu.

## Sicrhau cynnig ar gyfer Taliadau Uniongyrchol

4.38 Rydyn ni wedi gweithio gyda phobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol i archwilio cyfleoedd i wella'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw. Roedden ni wedi gwneud hyn trwy ailgomisiynu contract cymorth, a gafodd ei gwblhau ym Mawrth 2019.

4.39 Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud wrth gefnogi'r diddordeb yn y cynllun taliadau uniongyrchol dros y 3 blynedd ddiwethaf:

**Tabl 6: Diddordeb yn y Cynllun Taliadau Uniongyrchol, RhCT, 2016-17 i 2018-19**

(nifer)

| Gwasanaethau i Blant | Gwasanaethau i Oedolion |
|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 2016-17 | 127 | 2016-17 | 339 |
| 2017-18 | 134 | 2017-18 | 358 |
| 2018-19 | 154 | 2018-19 | 373 |

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

4.40 Roedden ni hefyd wedi cynnal adolygiad arfer gorau lle'r oedd awdurdodau lleol â lefelau cyflawniad uchel yn hyrwyddo a chynnig taliadau uniongyrchol gyda'r bwriad o gynyddu diddordeb yn y cynllun yn yr ardal trwy dargedu cyfrifon wedi'u rheoli.

**Tabl 7: Dangosydd Cyflawniad Allweddol - Canran y cleientiaid sy'n dewis eu darparwyr eu hunain trwy gynllun Taliadau Uniongyrchol, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | **Ein Targed** | **Ein Cyflawniad** | **Cyflawniad yn erbyn Targed** |
|---|---|---|---|
| Canran y cleientiaid sy'n dewis eu darparwyr gwasanaeth eu hunain trwy gynllun Taliadau Uniongyrchol. | 15.5% | 16.07% | |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.41 O ganlyniad i'n gwaith dros y flwyddyn, mae ein cyflawniad wedi gwella. Rydyn ni wedi mynd tu hwnt i'n targed ar gyfer y flwyddyn ac rydyn ni wedi gwneud cynnydd o'i gymharu â'r 14.67% a gafodd ein nodi'r flwyddyn flaenorol. Er bod y rhain yn welliannau bach, maen nhw'n dangos bod ein gwaith yn dechrau cael effaith. Mae'n cynnig sylfaen cadarn ar gyfer gweithredu pellach i wella ein cyflawniad yn y dyfodol.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Cryfhau cyfranogiad plant a phobl ifainc wrth ddarparu gwasanaethau trwy barhau i hyrwyddo ymgysylltiad â Phlant sy'n derbyn gofal ac asiantaethau partner i sicrhau cydweithio a chlywed llais y plant a'r bobl ifainc.

- Ar lefel leol, sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a darpariaeth cymorth i blant, pobl ifainc a theuluoedd o fewn eu cyrraedd yn well er mwyn eu hannog i gymryd rhan.

- Cryfhau'r systemau ar gyfer nodi a chefnogi anghenion cynhalwyr. Cynyddu nifer yr asesiadau cynhalwyr sy'n cael eu cwblhau a'r cynigion gofal sy'n cael eu derbyn pan fydd angen.

- Ailfodelu darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar o ganlyniad i'r Cynllun Rhanbarthol Cyd-adeiladu'r Blynyddoedd Cynnar.

- Parhau i leihau'r angen am wasanaethau statudol trwy sicrhau bod gan blant, pobl ifainc a theuluoedd gymorth teuluol integredig cydlynol yn gynt.

- Rheoli'r Grant Cymunedau a Phlant i gomisiynu gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar integredig effeithiol.

- Datblygu darpariaeth gwasanaeth integredig ymhellach er mwyn gwella cymorth ymyrraeth gynnar ac atal wedi'i hysbysu gan ddata Proffil Bregusrwydd.

- Datblygu gweithdrefnau systematig a chydweithredol i gasglu barn defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ynghylch effaith ein cymorth a gwasanaethau ar draws pob maes gwasanaeth a'u gweithredu'n llwyr.

- Parhau i ymwreiddio asesiad wedi'i seilio ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, cefnogi gwaith cynllunio ac adolygu ar draws y Gwasanaethau i Oedolion.

## (b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid er mwyn diogelu a hyrwyddo iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl

## Beth oedd ein cynlluniau y flwyddyn ddiwethaf?

4.42 Yn 2018-19, dywedon ni y byddwn ni'n:

- Datblygu modelau gwasanaeth wedi'u lleoli yn y gymuned gan ganolbwyntio ar atal, annibyniaeth, dewis a llesiant. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu mewn perthynas â gwasanaethau oriau dydd; seibiant; cynhalwyr; taliadau uniongyrchol; teleofal; Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref; gofal cartref.

- Datblygu gallu ac ansawdd darpariaeth cartrefi gofal arbenigol i sicrhau bod modd i bobl sydd â dementia gael mynediad i ofal arbenigol yn lleol, os does dim modd iddyn nhw aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Parhau â phrosiect Valley LIFE i ddatblygu ystod o wasanaethau i bobl hŷn â dementia sy'n helpu i gefnogi pobl i aros yn iach yn eu cartref am gyfnod hwy.

- Parhau â'r gwaith rhwng Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant i wella'r ffordd rydyn ni'n cefnogi pobl ifainc sy'n troi'n oedolion.

## Pa mor llwyddiannus oedden ni a pha wahaniaeth wnaethon ni?

### Oedi wrth drosglwyddo gofal

4.43 Mae lleihau achosion o oedi ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn parhau'n un o'n prif flaenoriaethau. Rydyn ni'n gweithio'n agos â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wrth wneud hyn. Mae'n her sylweddol o hyd, ac mae capasiti'r farchnad o ran gofal yn y cartref yn faes gweithredu penodol ar gyfer y flwyddyn.

**Tabl 8: Dangosyddion cyflawniad cenedlaethol allweddol – Oedi wrth drosglwyddo gofal, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | Ein targed | Ein cyflawniad | Cyflawniad yn erbyn Targed |
|---|---|---|---|
| Canran yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol i bobl 75 oed a hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn (Mesur 19) | 1.3% | 3.4 | 🔴 |
| Canran yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol i bobl 18 oed a hŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn (Mesur 19) | 2.4% | 5.1 | 🔴 |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.44 Er gwaethaf ymdrech sylweddol, cynyddodd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol ychydig yn ystod y flwyddyn. Roedd 99 o achosion wedi'u gohirio ar gyfer pobl 18 oed a hŷn. Roedd 67 o'r rhain ar gyfer pobl 75 oed a hŷn. Mae'r ffigurau'n uwch na'r nifer cyfatebol o achosion yn 2017-18, sef 63 a 36 yn y drefn honno.

4.45 Rydyn ni wedi gweithio'n galed i geisio lleihau achosion o oedi o ganlyniad i'r amser y mae'n cymryd i gynnal asesiadau. Fodd bynnag, roedd 24 o achosion o oedi o'r fath dros y flwyddyn gyfan o'u cymharu â 17 y flwyddyn flaenorol. Roedd gwelliant o ran yr achosion o oedi wrth drosglwyddo a oedd yn dibynnu ar y dewis o gartref gofal. Roedd y nifer wedi gostwng o 78 y flwyddyn flaenorol i 36 eleni. Hefyd, roedd gwelliant sylweddol o ran achosion o oedi wrth drosglwyddo oherwydd argaeledd mewn cartrefi gofal. Roedd y nifer wedi gostwng o 47 yn 2017-18 i 7 eleni.

4.46 Fodd bynnag, mae lle i wella o hyd. Rydyn ni'n cydnabod bod rhagor i'w wneud. Er enghraifft, wrth i ni barhau i helpu rhagor o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na'u bod yn symud i ofal preswyl, rydyn ni'n wynebu pwysau o ran darpariaeth a chapasiti gofal yn y cartref, yn enwedig ar adegau prysuraf y dydd.

4.47 Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos â darparwyr i leihau achosion o oedi. Mae ein gwasanaethau Cadw'n Iach Gartref, Cymorth yn y Cartref a'n Carfan Broceriaeth i gyd yn helpu i leihau achosion o oedi wrth drefnu pecynnau gofal yn y gymuned. Rydyn ni wedi ceisio ymestyn y Gwasanaeth Broceriaeth i gynnwys lleoliadau gofal preswyl, yn ogystal â rhoi cynlluniau peilot ar waith mewn carfanau dethol er mwyn adolygu effeithiolrwydd. O ganlyniad i'n hadolygiad, byddwn ni'n rhoi system archebu gwelyau ar waith yn 2019-20.

## Ailalluogi

4.48 Mae ein gwasanaethau ail-alluogi yn darparu gofal canolraddol a chymorth adsefydlu i alluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi yn ddiogel ac yn annibynnol. Mae'r cymorth ar gael i unrhyw un 18 oed a hŷn sy'n byw yn barhaol yn Rhondda Cynon Taf ac sy'n gymwys i dderbyn cymorth.

4.49 Ar ôl i ni weithio gyda'r unigolyn i asesu eu hanghenion a'r hyn y maen nhw am ei gyflawni, rydyn ni'n trafod cynllun cymorth â nhw. Mae'r gwasanaeth yma yn rhad ac am ddim am uchafswm o chwe wythnos ar yr amod bod angen y cymorth ar y person o hyd. Os yw'r cymorth yn parhau am gyfnod hirach, mae tâl yn cael ei godi yn unol â'n polisi ar godi tâl am wasanaethau cymdeithasol dibreswyl[4]. Lle bo angen, mae modd trefnu offer a/neu gymhorthion ac addasiadau arbenigol ar gyfer y cartref hefyd.

4.50 Yn 2018-19, cafodd 995 o bobl gymorth gan ein Gwasanaeth Ailalluogi. Mae'r tabl isod yn dangos ein cyflawniad yn erbyn dangosyddion cenedlaethol allweddol.

**Tabl 9: Dangosyddion cyflawniad cenedlaethol allweddol – Cymorth ar ôl ailalluogi, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | Ein targed | Ein cyflawniad | Cyflawniad yn erbyn Targed |
|---|---|---|---|
| Canran yr oedolion sydd wedi cwblhau cyfnod ailalluogi ac sydd â | 84.95% | 85.43% | ● (green) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| phecyn gofal a chymorth llai dwys 6 mis yn ddiweddarach (Mesur 20a) | | | |
| Canran yr oedolion sydd wedi cwblhau cyfnod ailalluogi ac sydd ddim â phecyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach (Mesur 20b) | 77.23% | 73.47% | 🔴 |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.51 Fe lwyddon ni i leihau cyfran yr oedolion a oedd yn gallu byw gyda phecyn gofal a chymorth llai dwys chwe mis ar ôl i ni ddarparu cymorth ailalluogi iddyn nhw. Roedd ein cyflawniad o 85.43% yn uwch na'n targed o 84.95%. Mae hyn yn golygu yr oedd angen llai o ofal a chymorth ar dros 4 o bob 5 person ar ôl iddyn nhw gael cymorth gan ein gwasanaethau ailalluogi.

4.52 Dydyn ni ddim wedi llwyddo cystal ar y gyfran o bobl a oedd ddim angen unrhyw ofal neu gymorth chwe mis ar ôl iddyn nhw dderbyn ein gwasanaeth ailalluogi. Roedd ein cyflawniad o 74.47% ychydig yn is na'n targed o 77.23%.

## Cartrefi gofal preswyl

4.53 Cynyddodd oedran cyfartalog yr oedolion a oedd yn mynd i ofal preswyl ychydig, i fymryn yn llai nag 87 oed (86 mlynedd a 9 mis). Ein targed oedd 85 mlynedd a 3 mis. Mae hyn yn galonogol. O ran atal pobl rhag gorfod mynd i ofal preswyl trwy ddarparu dulliau cymorth amgen yn y gymuned, gorau po fwyaf lle bo hynny'n bosibl.

**Tabl 10: Dangosyddion cyflawniad cenedlaethol allweddol –**
**Cartrefi gofal preswyl, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | Ein targed | Ein cyflawniad | Cyflawniad yn erbyn Targed |
|---|---|---|---|
| Cyfartaledd yr amser y mae oedolion (65 oed neu hŷn) yn derbyn cymorth mewn cartrefi gofal preswyl (Mesur 21) | 922.5 | 959.35 | 🔴 |
| Oedran cyfartalog yr oedolion a oedd yn mynd i gartrefi gofal preswyl (Mesur 22) | 85.27 oed | 86.78 oed | 🟢 |
| Nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i ofal preswyl neu ofal nyrsio (Dangosydd Corfforaethol) | 400 | 420 | 🔴 |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.54 Cafodd cyfanswm o 420 o bobl eu derbyn i ofal preswyl neu nyrsio, sef 3 person yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Mae ein cyflawniad ychydig yn is na'n targed. Ar gyfartaledd, mae pobl 65 oed a hŷn yn derbyn cymorth am ychydig yn hirach nag yn 2017-18 (tua 37 diwrnod).

## Gwasanaethau yn y gymuned

4.55 Mae darpariaeth ein Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref yn llwyddiant o hyd. Ar y cyd ag asiantaethau partner, mae'n cynnig ymateb integredig i leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty. Mae'r gwasanaeth yma yn gweithredu yn safleoedd ysbytai

acìwt – Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg – yn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac ar y wardiau, rhwng 8am a 8pm, 7 diwrnod yr wythnos.

**Astudiaeth Achos – Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref**

Mae Mrs A yn 90 oed ac yn byw ar ei phen ei hun. Roedd gyda hi ffrindiau a oedd yn byw gerllaw, ond symudodd ei mab i ffwrdd ac felly doedd dim modd iddo ymweld â hi mor aml. Roedd hi'n derbyn cymorth drwy drefniadau ad hoc gyda'i ffrindiau.

Roedd Mrs A yn annibynnol, ac roedd hi'n gallu ymolchi, gwisgo a symud am bellteroedd byr. Aeth hi i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys am 4.00pm yn cwyno bod pen tost gyda hi, ei bod hi'n teimlo'n benysgafn, a bod y symptomau yma yn gwaethygu. Ar ôl ei hasesu hi, doedd dim angen derbyn Mrs A i'r ysbyty. Cafodd hi ei chyfeirio at garfan Cadw'n Iach Gartref yn yr ysbyty, a ymatebodd o fewn yr awr. Dechreuon nhw'r asesiad am 4.00pm, dim ond dwy awr ar ôl mynd i'r ysbyty, a chafodd Mrs A a'i theulu sgwrs am 'Beth sy'n bwysig?'. Yn ystod yr asesiad, cododd teulu Mrs A bryderon am ei gallu i ymdopi gartref. Roedden nhw o'r farn bod angen rhywfaint o gymorth ffurfiol arni hi er mwyn ei helpu hi i fyw ei bywyd bob dydd. I ddechrau, roedd Mrs A yn amharod i dderbyn bod angen cymorth arni hi, ond roedd hi eisiau mynd adref. Ar ôl cael sgwrs am rwydweithiau cefnogi a'r hyn yr oedd hi'n gallu ei wneud, cytunodd Mrs A y byddai'n elwa ar rywun yn ei helpu hi wrth iddi flino yn ystod y dydd, ac roedd hi am i'w theulu wybod ei bod hi'n iawn.

Roedd camau gweithredu'r garfan Cadw'n Iach Gartref yn cynnwys adolygiad therapi o'i galluoedd corfforol, cais i osod allwedd ar frys yn ddiogel y diwrnod wedyn a threfnu bod ffrâm Zimmer ag olwynion yn cael ei darparu i helpu iddi hi symud. Cafodd pecyn gofal ei drefnu i ddechrau y diwrnod canlynol gyda galwadau bore a min nos. Cafodd gwasanaeth Pryd-ar-glud ei drefnu i ddechrau y diwrnod canlynol hefyd. O ganlyniad i'r Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref yn yr ysbyty, roedd modd rhyddhau Mrs A llai na 3 awr ar ôl ei hasesu hi. Roedd hyn yn osgoi'r angen iddi gael ei derbyn, yn unol â'i dymuniadau. Cafodd adolygiad ei gynnal o fewn yr 14 diwrnod cyntaf o'i chymorth, a nododd y byddai Mrs A yn elwa ar gymorth ailalluogi a fyddai'n para ychydig yn hirach. Roedd modd i Mrs A ymolchi a choginio a dod yn annibynnol eto. O ganlyniad, roedd modd dod â'r cymorth i ben ar ôl 3 wythnos a 3 diwrnod heb fod angen darparu gwasanaethau hirdymor.

Mae'r astudiaeth achos yma yn dangos yr hyn sy'n wahanol o ran y trefniadau newydd. Cafodd yr asesiad ei gynnal y tu allan i oriau craidd, gan ddefnyddio gwybodaeth a gafodd ei rhannu ar draws carfannau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan ddefnyddio un cofnod. Cafodd pecyn gofal/cymorth ei drefnu a'i gytuno ar unwaith, gan ddefnyddio dull galluogi er mwyn cynyddu lefel annibyniaeth Mrs A, a lleihau unrhyw ddibyniaeth ar ddarpariaeth gwasanaeth hirdymor.

4.56 Mae ein Gwasanaethau Llyfrgelloedd yn parhau i fod yn bwysig mewn perthynas â hyrwyddo iechyd a lles pobl a sicrhau bod pobl yn rhan o fentrau sy'n cael eu datblygu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydyn ni wedi adolygu ein Gwasanaeth Caeth i'r Cartref. Bydd yn cael ei ail-frandio'n 'Gwasanaeth Llyfrgell Gartref' a'i ddatblygu i ddiogelu buddiannau pobl sydd â salwch hirdymor, problemau symudedd neu sy'n gynhalwyr llawn amser, fel bod modd iddyn nhw barhau i gael gafael ar lyfrau heb fod angen iddyn nhw fynd i leoliad canolog. Yn ogystal ag ymgynghori â phobl mewn cymunedau ledled yr ardal, mae ein llyfrgelloedd hefyd wedi ein helpu ni i ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn datblygu Canolfannau yn y Gymuned.

### Darpariaeth cartrefi gofal i bobl â dementia

4.57 Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynyddu capasiti ac ansawdd darpariaeth cartrefi gofal arbenigol i sicrhau bod modd i bobl â dementia gael gafael ar ofal arbenigol yn lleol, os does dim modd iddyn nhw aros yn eu cartrefi eu hunain. Er enghraifft, nod ein cais i ddatblygu hen safle Llys yr Ynadon ym Mhontypridd yw sicrhau bod trefniadau cynaliadwy ar waith er mwyn comisiynu lefelau cynyddol o ofal i bobl dros amser, gan gynnwys gofal dementia.

### Prosiect Valley LIFE

4.58 Yn ystod 2018/19, rydyn ni wedi gweithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Linc Cymru i ddylunio'r cynllun tai â gofal ychwanegol ac adnoddau cymunedol pwrpasol a fydd yn cael eu datblygu ar hen safle Ysbyty George Thomas. Rydyn ni wedi sicrhau cyllid cyfalaf ychwanegol y Gronfa Gofal Canolraddol i helpu i ddatblygu'r cynllun. Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi gweithio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i ymestyn y gwasanaeth ymyrraeth arbenigol i bobl â dementia yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r Gwasanaeth yma yn defnyddio dull wedi'i seilio ar anghenion i ddeall ymddygiadau sy'n gysylltiedig â straen a gofid sy'n effeithio ar les person â dementia, a mynd i'r afael â'r ymddygiadau yna. Roedd y gwasanaeth eisoes wedi bod yn llwyddiannus wrth ddarparu cymorth ac addysg yn y sector cartrefi gofal. Bellach, mae'r trefniadau newydd yn sicrhau bod modd i'r gwasanaeth ymateb i bobl yn eu cartrefi eu hunain yng nghymuned Rhondda Cynon Taf. Er mwyn gwella a helpu â darpariaeth y gwasanaeth yn y gymuned, mae'r garfan bellach yn cynnwys uwch ymarferydd (gweithiwr cymdeithasol), sy'n gweithio ochr yn ochr â'r ymarferwyr seicoleg, therapi galwedigaethol a nyrsio ychwanegol.

### Pontio i fod yn oedolyn

4.59 Bu cynnydd wrth ddatblygu modelau gofal a llwybrau newydd i gyflawni deilliannau gwell i bobl ifainc sy'n pontio i fod yn oedolion. Wrth weithio ar y cyd â phartneriaid, mae egwyddorion pontio rhanbarthol wedi'u llunio. Cafodd gweithdai eu cynnal ym mis Mawrth i lunio'r modelau newydd a chynllun datblygu i'w roi ar waith. Mae carfan prosiect amlasiantaeth bellach yn ei lle i weithio ar y datblygiadau ymhellach.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Parhau i ddatblygu modelau gofal newydd i gyflawni deilliannau gwell i bobl ifainc sy'n pontio i fod yn oedolion. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy ganolbwyntio ar eu paratoi nhw i fyw mor annibynnol â phosibl

- Gwneud rhagor er mwyn rhoi trefniadau ar waith o ran ymgysylltiad parhaus â defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr ledled y Gwasanaethau i Oedolion, a chytuno ar strategaeth i'w cyflenwi'n flynyddol

- Byddwn ni'n datblygu ac yn darparu cymorth unigol sy'n seiliedig ar gryfderau, ac sy'n canolbwyntio ar ddymuniadau pobl ifainc a'u teuluoedd. Byddwn ni hefyd yn sicrhau bod plant a phobl ifainc sydd wedi derbyn gofal yn cael mynd yn ôl at eu teuluoedd cyn gynted ag y bo modd. Byddwn ni hefyd yn sicrhau bod y cymorth sy'n cael ei gynnig yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn rhan o fframwaith aduno

## (c) Cymryd camau i amddiffyn a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'u niweidio

### Beth oedd ein cynlluniau y flwyddyn ddiwethaf?

4.60 Yn ystod 2018/19, fe ddwedon ni y bydden ni'n:

- Cryfhau ein Fframwaith Sicrhau Ansawdd a lleihau ymhellach nifer yr achosion o blant a phobl ifainc yn cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant

- Cyflawni'r camau gweithredu yng Nghynllun Gwaith y Panel Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal 2018/19 i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal a'r rheiny sy'n gadael gofal yn mynd i leoliadau o ansawdd da sy'n eu helpu nhw i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn ac i gyflawni eu potensial

- Cwblhau a chyflwyno amserlen archwiliad Sicrhau Ansawdd i Oedolion ar gyfer 2018-19, gan ganolbwyntio ar y themâu a'r tueddiadau sydd wedi dod i'r amlwg o ddata gwybodaeth reoli ac archwiliadau yn 2017-18 a sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â gwaith is-grŵp Sicrhau Ansawdd newydd yr Hwb Diogelu Amlasianaeth

- Darparu'r cyfleoedd hyfforddi a gafodd eu nodi yng nghynllun hyfforddiant yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth, gan ganolbwyntio ar hunanladdiad a hunan-niweidio

- Datblygu model y Fforwm Ymarferwyr Amlasiantaeth yn ddull effeithiol o ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd ymarferwyr mewn perthynas â Diogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid gyda chymorth Canolfan Dysgu a Datblygu Cwm Taf. Nod y gweithgarwch yma fydd cyflwyno achlysuron rheolaidd dros y flwyddyn sy'n defnyddio enghreifftiau o achosion go iawn i archwilio arfer

### Pa mor llwyddiannus oedden ni a pha wahaniaeth wnaethon ni?

#### Amddiffyn plant

4.61 Ar 31 Mawrth 2019, roedd 498 o blant yn ardal Cwm Taf ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae hyn yn cymharu â 502 y flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad bach (1%). Serch hynny, mae hyn yn newid cadarnhaol. Cododd nifer y plant a oedd ar y Gofrestr oherwydd achosion o esgeulustod ychydig, o 148 ym mis Mawrth 2018 i 150 ym mis Mawrth 2019. Cododd nifer y plant ar y Gofrestr oherwydd achosion o gam-drin emosiynol o 243 i 263 yn ystod yr un cyfnod.

**Tabl 11: Dangosydd cyflawniad cenedlaethol allweddol – Plant sy'n Derbyn Gofal, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | Ein targed | Ein cyflawniad | Cyflawniad yn erbyn Targed |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canran y plant wedi'u hail-gofrestru ar Gofrestr Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol. | 8.0% | 6.72% | ● |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.62 Canran y plant a gafodd eu hail-gofrestru ar ein Cofrestr Amddiffyn Plant oedd 6.72%. Roedd y ffigur yn well nag ein targed o 8%, ac yn well na chanran y flwyddyn flaenorol, sef 8.1%.

4.63 Yn ystod y flwyddyn, mae 4 o blant wedi dod yn 'blant sy'n derbyn gofal' ar fwy nag 1 achlysur. Mae nifer y plant a ddaeth yn 'blant a dderbyniodd gofal' ar fwy nag un achlysur yn cyfateb i 2.4% o'r holl blant yma.

4.64 Mae ein Gwasanaeth Meisgyn yn helpu pobl ifainc sy’n agored i niwed, sy'n derbyn gofal, neu sydd mewn perygl o dderbyn gofal. Mae gyda'r gwasanaeth rôl ataliol, trwy atal pobl ifainc rhag ddod yn 'blant sy'n derbyn gofal' mewn ffordd amhriodol. Mae hefyd yn berthnasol i'r rheiny sy'n derbyn gofal ac y mae perygl y bydd eu lleoliadau yn dod i ben, e.e. plant mewn gofal maeth neu gartref i blant. Mae hefyd yn helpu pobl ifainc sy'n cael llety mewn argyfwng i ddychwelyd adref. Ar gyfartaledd, yn ystod 2018-19, daeth 50 o atgyfeiriadau i law'r gwasanaeth bob mis. Cafodd dros 60% ohonyn nhw eu derbyn gan y gwasanaeth er mwyn trefnu ymyrraeth iddyn nhw.

4.65 Yn ogystal â helpu pobl ifainc sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd, mae ein prosiect Meisgyn yn eu hannog i ddysgu a datblygu eu hunain. Mae'r garfan yn gweithio gyda charfan ein Gwasanaethau Diwylliannol i ddarparu prosiectau celf a cherddoriaeth, a chyda Chanolfan Addysg Tai i ddarparu gweithgareddau awyr agored. Y nod yw sicrhau bod pobl ifainc yn ail-ymgysylltu ag addysg trwy'r gweithgareddau yma ac yn ennill cymwysterau cydnabyddedig.

## Cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal

4.66 Yn ystod y flwyddyn, daeth 164 o blant yn 'blant sy'n derbyn gofal', sef cynnydd o 5% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm o 837 o blant a phobl ifainc yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn ostyngiad bach o'i gymharu â ffigur 2017-18, sef 845, ac yn dangos tueddiad parhaus o'i gymharu â chyfanswm 2016-17, sef 884.

4.67 O'r 837 a oedd yn derbyn gofal yn ystod y flwyddyn, cyfanswm y nifer a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2019 oedd 674, sef gostyngiad bach o'i gymharu â'r 676 ar yr un adeg flwyddyn ynghynt. Er bod y niferoedd yn yr ardal yn dal yn gymharol uchel o gymharu ag awdurdodau tebyg yng Nghymru, mae rhai awdurdodau wedi profi cynnydd uwch. Plant dan 4 oed yw'r rhan fwyaf o 'blant sy'n derbyn gofal' (53%). Mae plant llai na blwydd oed yn cyfri am 32%. Mae hyn bron yn union yr un fath â'r sefyllfa ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

4.68 Mae'r trefniant comisiynu lleoliadau sy'n ffafrio lleoli plant gyda chynhalwyr yn y Fwrdeistref Sirol yn parhau i fod yn gadarnhaol. Mae'r ganran wedi aros yn debyg i'r llynedd, gyda 70% o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli gyda rhieni maeth mewnol, a 30% gyda rhieni maeth y sector annibynnol. Mae'r ddau ffigur ychydig yn uwch nag ein ffigurau targed. Mae'r cynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu lleoli gyda pherthnasau wedi parhau. Y ganran ar 31 Mawrth eleni oedd 30%, o'i chymharu â 27% ym mis Mawrth 2018. Mae hyn yn gadarnhaol i'r plant dan sylw. Maen nhw'n cael y sicrwydd a'r sefydlogrwydd sydd eu hangen arnyn nhw heb gael eu gwahanu'n gyfreithiol oddi wrth eu teulu.

**Tabl 12: Dangosyddion cyflawniad cenedlaethol allweddol – Plant sy'n Derbyn Gofal, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | Ein targed | Ein cyflawniad | Cyflawniad yn erbyn Targed |
|---|---|---|---|
| Canran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd apwyntiad â deintydd cofrestredig o fewn 3 mis iddyn nhw dderbyn gofal | 60% | 79.2% | 🟢 |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu o fewn 10 diwrnod iddyn nhw ddechrau eu lleoliad | 98% | 89.3% | 🔴 |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol ar un achlysur neu fwy yn ystod cyfnod (neu gyfnodau) o dderbyn gofal. Dydy hyn ddim yn cynnwys cyfnodau neu drefniadau pontio. | 12.8% | 12.8% | 🟡 |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.69 Roedden ni wedi rhagori ar ein targed ar gyfer plant a gafodd apwyntiad â deintydd o fewn 3 mis iddyn nhw dderbyn gofal. Roedd ein cyflawniad o 79.2% - sef 4 o bob 5 plentyn yn y bôn - yn sylweddol uwch na'n cyflawniad yn 2017-18, sef 53.8%. Er bod y cyflawniad i'w ganmol, byddwn ni'n ymdrechu i wella ar hyn ymhellach yn 2019-20, ac ar ganran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu. Fel mae'r tabl uchod yn dangos, roedden ni ychydig ar ei hôl hi o ran ein targed eleni.

4.70 Roedden ni wedi cyflawni ein targed o 12.8% o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol sydd ddim o ganlyniad i gyfnod neu drefniant pontio. Roedd hyn wedi rhagori ar ein cyflawniad yn 2017-18, sef 14.4%

4.71 Yn ystod y flwyddyn, cafodd 45 o blant eu mabwysiadu. Mae hyn yn galonogol iawn, ac yn dangos cynnydd nodedig o'i gymharu â'r 31 o blant a gafodd eu mabwysiadu yn 2017-18. Cafodd tri o'r plant yma eu mabwysiadu gan eu rhieni maeth blaenorol. Cafodd tri phlentyn eu mabwysiadau gan rieni maeth sengl, 10 gan rieni maeth o'r un rhyw a 32 gan rieni maeth cymysg eu rhyw. Roedd ein gwaith ar sicrhau ansawdd wedi parhau, a hynny drwy gyflwyno menter y Panel Sicrhau Ansawdd Plant sy'n Derbyn Gofal ar ôl adolygiad annibynnol. Cafodd ein cynnydd ei gydnabod gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ei hadolygiad diweddar o swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol statudol y Cyngor.

4.72 Ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a chyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, cafodd rhaglen beilot ar Les wrth Faethu ei threialu, a hynny er mwyn gwella deilliannau lles plant maeth. Cafodd rhieni maeth, plant a phobl ifainc eu recriwtio yn arloeswyr, gyda rhieni maeth yn gweithredu llinell gymorth yn rhan o'r Gwasanaethau Maethu i gynhalwyr. Hefyd, ym mis Hydref 2018, fe lansion ni'r canllaw arfer da 'Marc Safon Ysgol Plant sy'n Derbyn Gofal'.

## Diogelu

4.73 Yn ystod y flwyddyn, daeth 4,699 o adroddiadau am achosion posibl o oedolion mewn perygl i law'r Garfan Diogelu Oedolion. Mae hyn 7% yn is na'r nifer a ddaeth i law y flwyddyn flaenorol (5,060). Arweiniodd yr adroddiadau at gamau gweithredu pellach mewn tua 1 ym mhob 10 achos (9% neu 418 o achosion)

4.74 O'r adroddiadau a ddaeth i law eleni, roedd 3 ym mhob 5 (60%) yn Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd. Roedd nifer yr ymholiadau Adran 126 (469), sef ymholiadau sy'n ofynnol gan

Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 pan fydd oedolyn mewn perygl, wedi gostwng 11% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Tabl 13: Mesur cyflawniad allweddol – Ymholiadau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion, RhCT a Chymru, 2018-19**

| | Targed CBS RhCT | Nifer gwirioneddol CBS RhCT | Cyflawniad yn erbyn Targed |
|---|---|---|---|
| Canran o ymholiadau mewn perthynas ag amddiffyn oedolion a gafodd eu cwblhau o fewn 7 diwrnod (Mesur 18) | 97% | 93.57% | |

Ffynhonnell: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

4.75 Cafodd bron i 19 o bob 20 ymholiad mewn perthynas ag amddiffyn oedolion (93.57%) eu cwblhau o fewn 7 diwrnod. Mae hyn yn debyg i ganran y llynedd (93.78%), ond ychydig yn is na'n targed o 97%.

4.76 Yn 2018-19, roedd 13,137 o achosion o gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf mewn perthynas â Gwasanaethau i Blant. O'r rheiny, roedd 1,889 (14%) yn ymwneud â phryderon mewn perthynas ag amddiffyn plant. At ei gilydd, cafodd 1,451 o'r 1,889 o achosion o gysylltu mewn perthynas ag amddiffyn plant a ddaeth i law (77%) eu hymchwilio. Mae hyn yn cymharu ag 16,470 o achosion o gysylltu rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018. Roedd 12% (1,938) o'r rhain yn ymwneud â phryderon mewn perthynas ag amddiffyn plant, a chafodd 85% o'r rhain eu hymchwilio.

4.77 Cafodd rhaglen dysgu a datblygu helaeth ei chyflenwi o ganlyniad i gynllun hyfforddi'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth. Roedd dros 2,800 o bobl o dros 13 o sefydliadau ac adrannau gwahanol y Cyngor wedi cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi. Roedd ystod eang o bynciau pwysig wedi'u trin a'u trafod yn rhan o'r rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys arferion diogelu ar gyfer plant ac oedolion, amddiffyn plant, gweithio gyda theuluoedd cymhleth, gweithio gyda phlant sydd wedi dioddef achosion o gam-fanteisio'n rhywiol a masnachu pobl. Derbyniodd dros 300 o bobl hyfforddiant "Ask and Ask" hefyd yn rhan o weithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

4.78

**Astudiaeth Achos – Cymryd camau gweithredu er mwyn amddiffyn a diogelu pobl rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio**

Daeth atgyfeiriad i law'r Garfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth gan ysgol leol. Roedd hyn ar ôl i Blentyn B honni bod ei fam wedi ei daro â gwregys. Cafodd yr achos ei nodi'n bryder amddiffyn plant a'i gyfeirio at yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth lle cafodd cyfarfod strategaeth ei gynnal. Cafodd sgwrs â Phlentyn B ei chynnal yn yr ysgol a daeth yn amlwg bod y plentyn wedi bod yn destun dulliau rheoli ymddygiad amhriodol yn y cartref. Cafodd y fam ei harestio. Gan fod dim aelodau eraill o'r teulu i'w cael, cafodd y plentyn ei leoli gyda rhieni maeth nes bod modd gwneud ymholiadau pellach. Yn dilyn asesiad, cafodd ei nodi bod y teulu'n dod o wlad a fyddai'n arfer defnyddio'r math yma o gosb, ac i ddechrau, doedden nhw ddim wedi deall y pryderon gan

unigolion proffesiynol. Y deilliant oedd cynnal gwaith gyda'r teulu. Roedd y rhieni wedi chwarae rôl lawn yn y gwaith yma a dychwelodd Plentyn B adref yn ddiogel heb unrhyw ymyrraeth bellach gan y Gwasanaethau i Blant.

4.79 Cafodd cyfres o archwiliadau mewn perthynas â diogelu eu cynnal yn ystod y flwyddyn:

- Achosion amlasiantaeth unigol mewn perthynas â Diogelu Oedolion (4 archwiliad)
- Defnydd o'r 'Protocol Pryderon Proffesiynol'
- Ansawdd trafodaethau strategaeth a phenderfyniadau ymchwilio
- Defnyddio eiriolaeth mewn Gweithdrefnau Diogelu Oedolion
- Ansawdd dod i benderfyniadau mewn achosion lle doedd dim camau pellach yn dilyn Adroddiadau S128
- Ansawdd dod i benderfyniadau mewn achosion lle doedd dim camau pellach o ran diogelu yn dilyn Adroddiadau S126
- Dysgu o Adroddiadau Diogelu Amldro ar gyfer yr un oedolion mewn perygl
- Ansawdd penderfyniadau blaenoriaethu achosion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydberthynas rhwng Pobl Perthnasol sy'n cael eu hariannu gan Ofal Iechyd Parhaus a cheisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a wnaed
- Asesiadau Ansawdd Lles Gorau yn unol â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Dadgofrestru pobl ifainc 16/17 oed o'r Gofrestr Amddiffyn Plant
- Archwiliad Ymddygiad Rhywiol Niweidiol
- Atgyfeiriadau i'r Ganolfan Atgyfeirio Camdrin Rhywiol yng Nghwm Taf
- Achosion Diogelu Plant unigol (6 archwiliad)

4.80 Mae'r archwiliadau a'r rhaglen hyfforddi, a oedd yn cynnwys staff o lawer o sefydliadau gwahanol sy'n gweithio yn yr ardal, yn helpu i ddatblygu ymhellach gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd ymarferwyr mewn perthynas â Diogelu Oedolion. Mae'n helpu i sicrhau bod y mentrau amlasiantaethol fel yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae'n codi calon bod eraill yn cydnabod hyn. Daeth Arolygiaeth Gofal Cymru i'r casgliad bod dull amlddisgyblaethol effeithiol yn helpu i hyrwyddo arferion diogelu cadarn.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Gweithredu'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd
- Gwella cyfranogiad plant a phobl ifainc wrth gyflenwi gwasanaethau, a hynny trwy barhau i hyrwyddo ymgysylltiad â Phlant sy'n Derbyn Gofal ac asiantaethau partner. Bydd hyn yn sicrhau cydweithio a bod llais y plant a'r bobl ifainc yn cael ei glywed
- Datblygu'r Rhaglen Rhieni Maeth arloesol i fentora rhieni maeth sy'n gofalu am blant ag ymddygiad heriol

## (ch) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a bod yn rhan o'r gymdeithas

## Beth oedd ein cynlluniau y flwyddyn ddiwethaf?

4.81 Yn 2018/19, fe ddwedon ni y bydden ni'n:

- Cynyddu nifer y Canolfannau yn y Gymuned a'r rhwydweithiau cymdogaeth dros gyfnod o dair blynedd. Bydd y broses raddol o gyflwyno lleoliadau'r canolfannau

yma yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r ymgynghoriadau a thystiolaeth o'r angen mwyaf

- Datblygu modelau gwasanaeth newydd sy'n rhoi'r gymuned wrth wraidd popeth ac sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, dewis, rheolaeth ac annibyniaeth

## Pa mor llwyddiannus oedden ni a pha wahaniaeth wnaethon ni?

### Canolfannau yn y Gymuned

4.82 Rydyn ni wedi parhau i ddatblygu Canolfannau yn y Gymuned ac wedi gwneud cynnydd da. Mae Canolfannau yn y Gymuned yn annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a bod yn rhan o'r gymdeithas. Maen nhw'n helpu i sicrhau gwell gwasanaethau cyhoeddus sy'n gyd-gysylltiedig, yn gost-effeithiol ac yn hygyrch. Maen nhw'n darparu un pwynt cyswllt o fewn cymunedau fel bod modd i bobl gael gafael ar wybodaeth, cyngor a chymorth o ansawdd da er mwyn dod o hyd i gefnogaeth. Maen nhw hefyd yn darparu cyfleoedd dysgu, gwirfoddoli a datblygu gallu cymunedol, yn ogystal â chynnig man cymunedol hyblyg i bobl gyfarfod a chymdeithasu. Mae hyn yn helpu pobl i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysu cymdeithasol. Felly, mae Canolfannau yn y Gymuned yn chwarae rhan bwysig wrth atal afiechyd a gwella iechyd a lles.

4.83 Mae datblygu Canolfannau yn y Gymuned yn golygu bod modd i'r Cyngor ad-drefnu ei eiddo a'i wasanaethau cymunedol. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys ystod o wasanaethau y mae'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn eu darparu sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd dod â'r gwasanaethau ynghyd â gwasanaethau eraill yn creu arbedion maint o ran costau gweithwyr ac adeiladau. Bydd gwneud defnydd gwell a mwy cost-effeithiol o'n hasedau cymunedol yn golygu bod modd ail-fuddsoddi adnoddau mewn adeiladau newydd neu adeiladau sydd wedi cael eu hôl-osod sy'n addas at y diben, a hynny er mwyn galluogi gwasanaethau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hirach. Eleni, rydyn ni wedi:

- Cytuno ar drosglwyddo prydles Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair i Age Connects Morgannwg Bydd gyda'r Ganolfan yn y Gymuned y mae Age Connects Morgannwg yn ei datblygu ystod o wasanaethau ar gyfer y gymuned leol

- Datblygu Canolfan yn y Gymuned yng Nglynrhedynog yn hen Ysgol Fabanod Glynrhedynog, a hynny ar y cyd â sefydliad y trydydd sector, sef Fern Partnership. Bydd yn gwasanaethu ardal Cwm Rhondda Fach. Mae'r gwaith adeiladu bron â'i gwblhau ac mae disgwyl i'r Ganolfan agor yn gynnar yn yr haf eleni

- Datblygu Canolfan yn y Gymuned yn hen Ganolfan Oriau Dydd Aberpennar, a fydd yn gwasanaethu ardal De Cwm Cynon. Mae disgwyl iddi agor yn gynnar yn yr haf eleni

- Dechrau paratoi cynlluniau i agor Canolfan yn y Gymuned ym Mhlaza'r Porth. Mae hyn yn rhan o waith adfywio canol y dref. Mae gwaith ar y gweill hefyd i agor Canolfan yn y Gymuned yn Llys Cadwyn, sef hen safle Canolfan Dyffryn Taf

Mae'r Cyngor yn cadw'r safle yma er mwyn darparu nifer o swyddogaethau wedi'u seilio yn y gymuned.

4.84 Bydd pob Canolfan yn y Gymuned yn cefnogi 'rhwydwaith cymdogaeth' o wasanaethau yn y gymuned. Bydd y rhwydwaith o Ganolfannau yn cysylltu gwasanaethau a chymunedau gyda'i gilydd ac yn helpu i wneud gwell defnydd o'r cyfleusterau heb eu hail y mae ein sefydliadau trydydd sector lleol yn darparu ledled yr ardal. Maen nhw'n cyfrannu'n sylweddol i iechyd a lles pobl gyda chymorth uniongyrchol gan y Cyngor a hebddo.

4.85 Mae datblygu Canolfannau yn y Gymuned yn ein helpu i foderneiddio ac ail-lunio ein gwasanaethau mynediad agored yn y gymuned. Yn ystod y flwyddyn, fe gynhalion ni ymgynghoriadau ar ddyfodol ein pedair Canolfan Cymuned Oriau Dydd mynediad agored, sef Y Gilfach Goch, Canolfan Brynnar Jones yn Y Gelli, Tŷ Teifi yn Y Maerdy, a Chanolfan Oriau Dydd Nasareth yn Nhre-wiliam. Mae costau cynyddol wrth gynnal a chadw'r canolfannau, ac mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn cael eu tanddefnyddio. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol er mwyn eu cadw ar agor. Dydy'r model gwasanaeth ddim yn diwallu anghenion pobl hŷn yn y cymunedau a dydy e ddim yn gynaliadwy bellach.

4.86 Rydyn ni'n rhoi pwyslais mawr ar y gymuned yn chwarae ei rhan mewn materion o'r fath, lle mae angen dod i benderfyniadau ar wasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhalion ni ymgynghoriad â phobl dros gyfnod o 6 wythnos. Cafodd wyth achlysur galw heibio eu trefnu. Roedd llawer iawn o drigolion a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau wedi eu mynychu. Hefyd, fe gynhalion ni arolwg ar-lein. Roedd cyfanswm o 331 o bobl wedi ymateb i'r ymgynghoriad. Ar ôl ystyried yn ofalus, daethon ni i'r penderfyniad i gau tair canolfan. Bydd Canolfan Y Gilfach Goch yn parhau i fod ar agor. Rydyn ni'n gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i archwilio darpariaeth amgen i'r rheiny sydd wedi'u heffeithio, sy'n cynnwys y Canolfannau yn y Gymuned rydyn ni'n eu datblygu.

4.87 Yn ogystal â helpu pobl ifainc sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau anodd, mae ein prosiect Meisgyn yn eu hannog i ddysgu a datblygu eu hunain. Mae'r garfan yn gweithio gyda charfan ein Gwasanaethau Diwylliannol i ddarparu prosiectau celf a cherddoriaeth, a chyda Chanolfan Addysg Tai i ddarparu gweithgareddau awyr agored. Y nod yw sicrhau bod pobl ifainc yn ail-ymgysylltu ag addysg trwy'r gweithgareddau yma ac yn cyflawni cymwysterau cydnabyddedig.

## Modelau gwasanaeth newydd yn y gymuned

4.88 Rydyn ni wedi dechrau gweithio gyda'r Rainbow Trust i edrych ar ddatblygu cyfleoedd oriau dydd newydd. Y nod yw gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifainc ag anableddau dysgu wrth adael yr ysgol neu'r coleg.

4.89 Yn rhan o'n gwaith ar y cyd ag eraill, bellach mae gyda ni 5 Cydlynydd Cymunedol sy'n gweithio ledled ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morannwg. Cronfa Gofal Integredig Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r swyddi yma. Mae tri o'r Cydlynwyr yn cwmpasu ardal y Cyngor, sef Cwm Cynon, Taf Elái, a Chwm Rhondda. Mae un yn cwmpasu ardal Cyngor Merthyr Tudful. Rôl y pumed Cydlynydd yw gweithio'n benodol ym maes gofal sylfaenol ledled yr ardal gyfan. Maen nhw'n ymgysylltu â phobl mewn cymunedau ac yn darparu gwybodaeth a chyngor, yn ogystal â'u cyfeirio at grwpiau cymunedol, gweithgareddau a gwasanaethau lleol. Mae hyn oll yn adeiladu rhwydweithiau lleol cryf. Yn rhan o'r gwaith yma, maen nhw'n ategu'r Canolfannau yn y Gymuned rydyn ni'n eu datblygu.

4.90 Mae Parthau Cymunedol yn cael eu datblygu a bydd y cynllun gweithredu yn ystyried sut mae modd mynd i'r afael â'r profiad o deimlo'n unig ac ynysig ymysg rhieni ifainc. Ar lefel gymdeithasol, mae'r profiadau yma yn effeithio ar bobl o bob oed. Enillodd y Cyngor Grant Cyfalaf Trawsnewid o £120,000 gan Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru er mwyn adnewyddu'r tu mewn i Lyfrgell Tonypandy. O ganlyniad, mae gyda ni lyfrgell fodern â mannau cymunedol, gan gynnwys ystafelloedd ar gyfer sesiynau cyngor cyfrinachol ac ardal bwrpasol newydd i bobl o bob oed greu a chydweithio ar brosiectau. Hefyd, mae ystafell TG newydd ar gyfer Clybiau Gwaith fel Dydd Gwener Digidol a dosbarthiadau addysg i oedolion. Yn rhan o flaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, fe gymeron ni ran mewn ffeiriau gwirfoddoli yn Ysgol Gyfun Treorci a Choleg Merthyr Tudful gyda'r nod o alinio diddordebau pobl ifainc â'r gwaith sydd ei angen iddyn nhw ei wneud er mwyn bodloni elfen her gymunedol Bagloriaeth Cymru a Gwobr Dug Caeredin.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Datblygu modelau gwasanaeth cymunedol newydd sy'n canolbwyntio ar atal, annibyniaeth, dewis a lles, gan gynnwys y gwasanaethau oriau dydd yma - gofal seibiant, cynhalwyr, taliadau uniongyrchol, teleofal, Cadw'n Iach Gartref a gofal yn y cartref

- Adolygu'r newidiadau a wnaed i'r un man cyswllt ar gyfer darpariaeth gwasanaeth er mwyn ei alinio â datblygiad y Parthau Cymunedol

## (e) Cefnogi pobl i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teuluol a phersonol iach mewn modd diogel

## Beth oedd ein cynlluniau y flwyddyn ddiwethaf?

4.91 Fe ddywedon ni y bydden ni'n:

- Parhau i weithio gyda'r Gwasanaethau i Blant i ddatblygu dull wedi'i arwain gan arferion sy'n gwella'r ffordd rydyn ni'n gweithio gyda phobl ifainc a'u teuluoedd trwy gydol eu bywyd ac yn ystod y cyfnod allweddol o bontio i fod yn oedolyn yn bennaf

- Datblygu cynllun i weithredu Gwasanaeth Maethu Rhanbarthol yn unol ag argymhellion Fframwaith Maethu Cenedlaethol

- Gorffen datblygu'r Strategaeth Cyfleoedd Oriau Dydd i Bobl ag Anableddau Dysgu a pharatoi achos busnes effeithiol ar gyfer ail-lunio'r model darparu gwasanaethau presennol

## Pa mor llwyddiannus oedden ni a pha wahaniaeth wnaethon ni?

### Gwasanaethau i Blant

4.92 Rydyn ni wedi parhau i weithio gyda'r Gwasanaethau i Blant o ran trefniadau Pontio. Yn ystod 2018/19, fe wnaethon ni weithredu Egwyddorion Pontio a gafodd eu datblygu ar ran Bwrdd Diogelu Cwm Taf. Rydyn ni hefyd wedi ffurfio Grŵp Pontio Strategol a Gweithredol a fydd yn cynnwys nid yn unig y Gwasanaethau i Blant ond Partneriaid Amlasiantaeth eraill i sicrhau ein bod ni'n cynllunio'n effeithiol i bobl ifainc sy'n nesáu at fod yn oedolion. Bydd y grwpiau yma yn helpu gyda datblygiad arfer parhaus er mwyn gwella trefniadau pontio ar gyfer pobl ifainc. Rydyn ni'n parhau i wreiddio diwylliant o ddysgu a datblygu trwy drefnu fforymau Ymarferwyr er mwyn datblygu dull cyson o ran y broses bontio a'r cymorth sy'n cael ei ddarparu i unigolion a'u teuluoedd.

### Gwasanaeth Maethu Rhanbarthol

4.93 Ein nod yw rhoi dechrau gwych mewn bywyd i blant trwy wella ein gwasanaethau maethu a thrwy recriwtio rhagor o gynhalwyr maeth. Ym mis Rhagfyr 2018, cymeradwyodd ein Cabinet

gynnig i gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i greu un 'Drws Ffrynt' rhanbarthol i Gwm Taf. Mae hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth yn adroddiad y llynedd i ddatblygu gwasanaeth rhanbarthol gyda gwaith recriwtio a marchnata lleol yn unol â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol. Mae hefyd yn dod â'r broses o asesu rhieni maeth posibl yn ôl i wasanaethau'r Cyngor. Cafodd y trefniadau newydd eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2019. Mae Canolfan Gyswllt y Cyngor bellach yn ymdrin â phob ymholiad recriwtio sy'n ymwneud â maethu, prosesu ceisiadau, cydlynu'r gwaith marchnata a chefnogi darpar rieni maeth drwy'r broses o ddod yn Rhiant Maeth ar gyfer rhanbarth Cwm Taf. Er ei bod yn rhy gynnar i asesu effaith lawn y newid, mae'n addo bod yn gadarnhaol. Mae galwadau'n cael eu hateb yn fwy effeithlon ac mae ymweliadau cychwynnol yn cael eu cynnal yn brydlon.

### Strategaeth Cyfleoedd Oriau Dydd i Bobl ag Anableddau Dysgu

4.94 Aethon ni ati i ddatblygu Strategaeth Cyfleoedd Oriau Dydd i Bobl ag Anableddau Dysgu ac ailfodelu sut mae'r gwasanaeth presennol yn cael ei ddarparu. Cafodd set o opsiynau eu llunio, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i ystyried ailgynllunio gwasanaethau er mwyn canolbwyntio mwy ar ddeilliannau. Gan fod bwriad i gyflwyno proses comisiynu rhanbarthol, fe ohirion ni'r adroddiad drafft. Aethon ni ati i lunio opsiynau ar y cyd â'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u rhieni a'u cynhalwyr. Fe gynhalion ni weithdai gyda'r holl randdeiliaid ym mis Chwefror a mis Mawrth 2019 i ddatblygu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu. Er mwyn cwblhau'r blaenoriaethau ar gyfer newid, rydyn ni wedi pennu Gorffennaf 2019 yn ddyddiad targed diwygiedig fel bod modd llunio opsiynau pellach â phobl ag anabledd dysgu a'u rhieni/cynhalwyr.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Parhau i weithio i leihau'r angen am Wasanaethau Statudol trwy sicrhau bod plant, pobl ifainc a theuluoedd yn derbyn cymorth teuluol integredig cydlynol yn gynt

## (f) Gweithio gyda phobl a bod yn gymorth iddyn nhw i gyflawni lles economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion

## Beth ddywedon ni y bydden ni'n ei wneud?

4.95 Yn 2018/19, fe ddywedon ni y bydden ni'n:

- Cwblhau'r gwaith datblygu ac adeiladu ar gyfer y Tai Gofal Ychwanegol. Mae'r tai yma yn darparu rhagor o ddewis i drigolion hŷn i'w galluogi i fyw'n iach ac yn ddiogel cyhyd ag y bo modd. Mae hyn yn eu helpu i fod yn fwy annibynnol ac yn lleihau profiadau o ynysu cymdeithasol

- Dod i ben ag adolygiad o ddarpariaeth cartrefi gofal preswyl (a chanolfannau dydd) presennol ar gyfer pobl hŷn i gefnogi ein hanghenion gwasanaeth yn y dyfodol, gan helpu rhagor o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach na mewn lleoliadau sefydliadol

- Cwblhau gwaith ailddatblygu llety arbenigol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu

- Parhau i sicrhau bod yna lefelau priodol o dai a llety modern addas ar gael ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a fydd yn diwallu eu hanghenion a, lle bo'n addas, cynnwys mynediad i gyfleusterau cymunedol

- Gweithredu argymhellion yr adroddiad annibynnol: Adolygu a Newid Ffocws ar Lety a Darpariaeth Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a Phobl sy'n Gadael Gofal

- Aildrefnu Cynllun Plant sy'n Derbyn Gofal i ystyried gwersi wedi'u dysgu a sicrhau bod y plant hynny lle does dim modd iddyn nhw fyw gyda'u rhieni yn byw mewn llety addas yn yr ardal

- Dod o hyd i ystod o leoliadau sy'n cefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl sy'n gadael gofal i gyflawni deilliannau personol a llunio model drafft newydd o ddarpariaeth gwasanaethau yn ein sefydliadau preswyl

## Pa mor llwyddiannus oedden ni a pha wahaniaeth wnaethon ni?

### Tai Gofal Ychwanegol

4.96 Fel y mae wedi'i nodi eisoes yn yr adroddiad yma, ac mewn ymateb i'r ddwy flaenoriaeth gyntaf wedi'u rhestru uchod, mae'r cynnydd yn dda mewn perthynas â'n cynllun i ddatblygu rhagor o Dai Gofal Ychwanegol. Nod y tai yma yw gwella lles pobl hŷn a'u gwneud yn fwy annibynnol, gan fod y tai yn opsiwn amgen i leoliadau cartrefi gofal sefydliadol.

4.97 Mae ein Tai Gofal Ychwanegol ar safle hen Gartref Gofal Maesyffynnon yn Aberaman i fod i agor ym mis Medi 2019. Ym mis Awst y llynedd, fe gynhalion ni ymgynghoriad ar gais cyn-cynllunio i adeiladu ar safle'r hen Lys Ynadon ym Mhontypridd. Mae gwaith adeiladu'r llety ar hen safle Ysbyty George Thomas yn Nhreorci i fod i ddechrau yn ystod haf 2019.

4.98 Daeth ein hadolygiad sylweddol o'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cartrefi gofal preswyl a chanolfannau oriau dydd i bobl hŷn i ben. Cafodd yr adolygiad ei gomisiynu i'n helpu ni i ddeall yr angen am wasanaethau yn y dyfodol o fewn y cyd-destun strategol ehangach o alluogi rhagor o bobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain yn hytrach nag mewn lleoliadau sefydliadol. Rydyn ni wedi cynnal ymgynghoriad 12 wythnos (Ionawr i Ebrill 2019), a bydd y canlyniad yn llywio penderfyniadau yn y dyfodol.

### Llety i bobl ag anableddau dysgu a phobl sy'n agored i niwed

4.99 Mae ein gwaith ar y cyd â chymdeithas tai Cynon Taf i ddatblygu gwell llety i bobl ag anableddau dysgu trwy ailfodelu Llys Pen Llew yn Aberdâr bellach wedi mynd heibio'r cam tendro. Mae'r 34 o fflatiau a fflatiau deulawr gwreiddiol yn cael eu troi'n 19 o fflatiau un ystafell wely. Mae'n golygu fydd pobl ddim yn byw mewn un ystafell wely yn unig. Bydd gyda nhw eu drws ffrynt eu hunain, ystafell fyw ac ystafell wely, cegin, a chawod wedi'i haddasu. Bydd cymorth ar gael ar y safle bob awr o'r dydd a'r nos. Y nod yw y bydd modd i unigolion fyw mewn cymuned ac nid mewn sefydliad. Bydd y safle yn cynnwys cyfleusterau cymunedol. Mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd 2019.

4.100 Mae'r datblygiad yn cyd-fynd yn dda ag argymhellion adroddiad cenedlaethol 'Comisiynu Strategol Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu' gan Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad[5] yn argymell bod awdurdodau lleol yn parhau i ganolbwyntio ar atal pobl rhag dod yn ddibynnol ar leoliadau drutach mewn cartrefi gofal trwy ddarparu cefnogaeth effeithiol ac ystod o lety cam-i-fyny.

4.101 Mewn ymateb i Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â phobl ag Anableddau Dysgu, rydyn ni wedi parhau i weithio gydag Asiantaethau Partner, y bobl rydyn ni'n darparu gofal a chymorth ar eu cyfer a'u rhieni a'u cynhalwyr i roi'r Datganiad o Fwriad ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu ar waith. Mae hyn yn nodi ymrwymiad ar y cyd i gyflwyno model newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Mae gweithredu'r Datganiad o

Fwriad yn ein helpu i fynd i'r afael â'r argymhellion a gafodd eu nodi gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadroddiad. Ond yn bwysicach na hynny, mae'n ein helpu ni i lunio ein deilliannu comisiynu ar gyfer y tymor byr a'r tymor canolig ar y cyd. Yn 2018/19, rydyn ni wedi canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Atal unigrwydd ac ynysu trwy gynyddu cynhwysiant cymunedol
- Lleihau Stigma
- Materion Tai
- Addysg Bellach
- Cyflogaeth, hyfforddiant, a dysgu gydol oes

Mae'r deilliannau cyffredin a gafodd eu cytuno bellach yn cael eu defnyddio i lywio ein cynlluniau gwaith ar y cyd ar gyfer 2019/20.

### Llety a lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

4.102 Derbyniodd ein holl Gartrefi Plant adroddiadau cadarnhaol gan yr ymwelydd annibynnol. Mae ein tri sefydliad preswyl wedi bod yn llawn am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, gyda lleoedd gwag yn cael eu harchwilio'n fisol. Rydyn ni'n cydnabod bod angen i ni gynllunio ar gyfer anghenion llety yn y dyfodol ac rydyn ni wrthi'n adolygu ein model gofal preswyl ac anghenion tai ein plant sy'n derbyn gofal sy'n 16 oed a hŷn.

4.103 Gan weithio gyda Chymdeithas Tai Trivallis, rydyn ni'n parhau i ddarparu dwy fflat un ystafell wely ar gyfer pobl ifainc sy'n gadael gofal iddyn nhw eu defnyddio ar sail prawf i fyw'n annibynnol ar eu pennau eu hunain. Mae'r fflatiau ar gyfer pobl ifainc 17 oed a hŷn mewn lleoliadau preswyl neu faeth. Mae aros yno yn eu helpu nhw i fynd i'r afael â bywyd bob dydd, e.e. talu biliau, blaenoriaethu gwariant ac yn y pen draw wynebu realiti byw ar eu pennau eu hunain.

4.104 I gyflawni ein hymrwymiad i ddrafftio model newydd o ddarpariaeth gwasanaeth yn ein sefydliadau preswyl, fe arhoson ni hyd nes bod Grŵp Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei adolygiad o fodelau Gofal Preswyl i Blant a Phobl Ifainc. Cafodd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2018 ac rydyn ni wedi ystyried ei argymhellion. Mae'r rhain wedi'u cynnwys i'w gweithredu mewn Strategaeth Leoli.

## Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Byddwn ni'n adolygu ein model gofal preswyl ac anghenion tai ein plant sy'n derbyn gofal sy'n 16 oed a hŷn

- Darparu modelau llety newydd i wella deilliannau ar gyfer yr unigolion hynny sydd angen cymorth i fyw'n annibynnol (Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu mewn perthynas â gofal ychwanegol/byw â chymorth)

# 5. Sut rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei wneud

## (a) Ein gweithlu a sut rydyn ni'n cefnogi eu rolau proffesiynol

5.1 Mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn dibynnu ar gael gweithlu â digon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda a'r gymysgedd gywir o sgiliau, profiad a dull gweithredu, e.e. er mwyn gwella gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau sefydliadol. Rydyn ni wedi parhau i fwrw ymlaen â newid sefydliadol a diwylliannol yn dilyn cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

5.2 Er mwyn sicrhau bod gyda ni'r gweithlu sydd ei angen arnon ni i gyflawni'r gorau i'n trigolion, rydyn ni'n chwarae ein rhan wrth weithredu Cynllun Gweithlu pum mlynedd y Cyngor[6]. Mae pum nod i'r Cynllun:

- Datblygu gweithlu ystwyth a hyblyg sy'n rhannu gwybodaeth sefydliadol
- Recriwtio a chadw'r bobl â'r doniau gorau i greu gweithlu amrywiol
- Datblygu rheolwyr ac arweinwyr
- Galluogi gweithlu ymroddedig ac ymgysylltiedig sy'n perfformio'n dda
- Cefnogi iechyd a llesiant ein gweithlu er mwyn sicrhau presenoldeb i'r eithaf

5.3 Rydyn ni hefyd wedi cymryd, ac yn parhau i gymryd, camau gweithredu sy'n benodol i'n gweithlu gofal cymdeithasol yn fewnol a thrwy Gynllun Gwaith Blynyddol Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf 2018/19. Dyma gynllun gweithredu treigl i:

- Cefnogi gweithredu parhaus Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) gan gynnwys y gweithlu gofal cartref i baratoi ar gyfer cofrestru a chynnal gwybodaeth/rôl unigolion cyfrifol

- Cefnogi hyfforddiant, datblygiad a chymwysterau rheolwyr gofal cymdeithasol: gan gynnwys Camu Ymlaen at Reoli; Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol; Rhaglen Datblygu Rheolwr Carfan; a'r rheiny sydd angen cofrestru yn rheolwyr

- Cefnogi datblygiad parhaus dulliau ymarfer gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau

- Cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant cymhwyso Gwaith Cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yng Nghymru

- Cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â'u maes gwaith nhw, a chefnogi cyflwyno'r fframwaith sefydlu diwygiedig

- Galluogi'r gweithlu i fodloni gofynion rheoleiddio ar gyfer cymhwyster a/neu gofrestru

5.4 Roedd dadansoddiad o anghenion hyfforddi a gafodd ei gynnal ledled y rhanbarth yn ystyried y blaenoriaethau cenedlaethol a gafodd eu nodi gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a gafodd eu nodi yn gyfuniad o hyfforddiant craidd cylchol (h.y. hyfforddiant blynyddol, gofynnol) ac achlysuron datblygu a fydd yn codi ymwybyddiaeth ac yn datblygu arfer. Mae'r blaenoriaethau lleol yn adlewyrchu polisi a darpariaeth gwasanaeth pob awdurdod lleol yn y rhanbarth.

5.5 Yn ystod y flwyddyn, cafodd hyfforddiant wedi'i gynllunio ei ddarparu gennyn ni ar gyfer uwch ymarferwyr, gan gynnwys hyfforddi a mentora ac arfer a goruchwyliaeth wedi'i seilio ar gryfder. Hefyd, cafodd hyfforddiant ei ddarparu ar gyfer yr holl staff Gofal a Chymorth.

Roedd y pynciau'n cynnwys cyfweld ysgogiadol a chyfathrebu cydweithredol, myfyrio a dadansoddi beirniadol, a chymryd risgiau a dod i benderfyniadau cadarnhaol.

5.6 Yn 2018-19, fe gymeron ni sawl cam i wella ein gwaith cynllunio'r gweithlu a'n system rheoli cyflawniad, yn ogystal â hyfforddi a datblygu ein gweithlu. Maen nhw'n cynnwys y canlynol:

- Camau gweithredu i ddefnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) newydd mewn modd effeithiol, sy'n rhoi gwell gwybodaeth i ni o ran rheoli gofal pobl. Mae hefyd yn arbed amser trwy osgoi'r angen i ailadrodd gwybodaeth i wahanol asiantaethau

- Polisi Goruchwylio newydd, a gafodd ei lunio ar y cyd â staff ac sy'n cyd-fynd ag egwyddorion arfer sy'n seiliedig ar gryfder

- Cyflwyno trefniadau cefnogi grŵpiau cyfoedion ledled y Gwasanaethau Asesu a Chydlynu Gofal

- Staff yn ymgysylltu'n rheolaidd â rheolwyr i wella cyfathrebu a chaniatáu trafod pryderon, datblygiadau, awgrymiadau a syniadau. Mae hyn yn digwydd mewn gwahanol ffyrdd mewn meysydd gwasanaeth gwahanol

- Lle bo modd, creu rhagor o swyddi dros dro a pharhaol i gynyddu capasiti yn ymateb i bwysau penodol

- Rhaglen 'Arweinyddiaeth mewn Gofal Dementia', a chefnogaeth i'n staff cartrefi gofal iddyn nhw gwblhau cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Rydyn ni hefyd wedi annog a chefnogi ein staff rheng flaen gwasanaeth uniongyrchol mewnol i ennill Lefel 3 QCF o leiaf

5.7 Yn rhan o'n Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, fe gyflwynon ni 'Dulliau Adferol'. Mae pob aelod o staff sy'n rheoli eraill wedi cael eu hyfforddi yn y dull, sydd bellach ar waith ledled y gwasanaeth cyfan. Mae'r dull wedi bod yn ddefnyddiol wrth sefydlu anghenion staff ar y cyd, gan lywio ailddatblygu ffurflenni a sesiynau goruchwylio, a darparu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae cynlluniau ar y gweill i gyflwyno'r dull i'r Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth.

5.8 Mae staff y Gwasanaethau i Blant wedi bod yn rhan o sawl grŵp gorchwyl i ddatblygu dull symlach o ddarparu gwasanaethau. Mae rhai hefyd yn rhan o weithgorau cenedlaethol ac mae'r hyfforddiant sy'n deillio o hyn wedi'i gynnwys yn ein Rhaglen Hyfforddi Flynyddol. Mae'r staff yn cyfrannu at baratoi'r rhaglen flynyddol.

5.9 Mae ein staff diogelu hefyd yn parhau i gyfrannu at y rhaglen o achlysuron Ymarferwyr Amlasiantaeth, sydd wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r achlysuron niferus a gafodd eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn helpu ag arfer datblygu proffesiynol trwy rannu'r hyn sydd wedi'i ddysgu o archwiliadau ac adolygiadau.

## (b) Ein hadnoddau ariannol a sut rydyn ni'n cynllunio

5.10 Mae'r sefyllfa ariannol, ynghyd ag anghenion sy'n newid a phwysau demograffig, yn parhau i fod yn heriol. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi a blaenoriaethu'r Gwasanaethau i Oedolion a Gwasanaethau i Blant, ac unwaith eto mae wedi dangos ei ymrwymiad i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a buddsoddi yn ein blaenoriaethau lleol. Ar gyfer 2018-19, dyrannodd y Cyngor £144.9 miliwn i gyllideb Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau Cymuned, sef cynnydd o £6.8 miliwn (4.9%) ar gyllideb 2017-18.

5.11 Daeth y flwyddyn ariannol flaenorol (2017/18) i ben gyda gorwariant o £0.903 miliwn ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion. Roedd hyn yn bennaf gan fod rhaid talu am staff i weithio yn absenoldeb eraill oherwydd salwch yn ôl yr angen, a gan fod rhaid darparu lleoliadau llety arbenigol, pecynnau gofal cartref, ac roedd llai o bobl yn aros mewn cartrefi gofal preswyl y Cyngor. Hefyd, roedd tangyflawniad o ran dod ag incwm i mewn lle'r oedd tâl yn ddyledus.

5.12 Erbyn diwedd eleni, roedd gyda ni orwariant o £1.08 miliwn. Y prif resymau dros hyn oedd gorwario ar:

- Costau staffio a chymorth tymor hir
- Costau gofal nyrsio/preswyl
- Gofal canolraddol ac ailalluogi, oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty neu i hwyluso eu rhyddhau o'r ysbyty
- Codi tâl tecach, oherwydd lefelau incwm is
- Costau cynyddol ffioedd a lwfansau gofal preswyl a mabwysiadu

5.13 Yn ystod y flwyddyn, roedd gofynion staffio ychwanegol yn y Gwasanaethau Llety. Hefyd, daeth llai o incwm i law gan fod nifer y cleientiaid yn llai na'r hyn roedden ni wedi cyllidebu ar ei gyfer mewn perthynas â sefydliadau Cartrefi'r Henoed

5.14 Cafodd y gorwariant ei wrthbwyso yn rhannol gan danwariant ar:

- Gwasanaethau byw'n annibynnol a gwasanaethau oriau dydd, oherwydd swyddi gwag
- Maethu, oherwydd costau is
- Gwasanaethau i Blant, oherwydd swyddi gwag dros dro

5.15 Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi cymryd ystod o gamau i fynd i'r afael â'r heriau a'r pwysau ariannol. Mae'r gwaith yma yn mynd rhagddo.

5.16 Er mwyn rheoli pwysau parhaus ar y gyllideb, rydyn ni'n parhau i roi cynlluniau cyllideb cadarn a heriol iawn ar waith yn rhan o strategaeth rheoli cyllid y Cyngor a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig cysylltiedig. Mae gyda ni brosesau cadarn ar waith i nodi pan mae pwysau ar gyllidebau a phan mae cyllidebau'n gweithredu'n effeithlon, gan gynnwys prosesau a gweithdrefnau craffu trylwyr. Mae swyddi gwag sy'n codi yn cael eu hystyried yn rhan o'n gwaith parhaus, ehangach i ystyried ac ailfeddwl y posibilrwydd o drawsnewid y ffordd rydyn ni'n darparu gwasanaethau. Mae paneli sicrhau ansawdd yn goruchwylio penderfyniadau comisiynu ledled y Gwasanaethau i Oedolion er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu herio ac er mwyn sicrhau cysondeb o ran ansawdd deilliannau asesiadau. Maen nhw hefyd yn cynnal cyfarfodydd misol mewn perthynas â chost gofal a chyfarfodydd panel lleoliadau arbenigol bob pythefnos.

5.17 Rydyn ni hefyd yn canolbwyntio ar gryfhau ymhellach y gwaith atal er mwyn lleihau'r galw a/neu gadw'r galw mor isel â phosibl, yn ogystal â chynyddu nifer y cleientiaid sy'n byw'n annibynnol gan leihau cost gofal. Rydyn ni'n parhau i weithio i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant yr hyn rydyn ni'n ei wneud trwy adolygiadau a thrwy ddefnyddio rhagor o dechnoleg.

## (c) Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, trefn lywodraethol ac atebolrwydd

5.18 Rydyn ni'n ffodus o gael arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol ymroddedig ac effeithiol sy'n cefnogi a herio cyflawniad aelodau'r Cabinet a swyddogion i ysgogi gwelliannau o ran gwasanaethau a phrosesau trawsnewid. Roedd Arolygiaeth Gofal

Cymru wedi cydnabod hyn yn ei arolygiad diweddar. Mae'n hawdd mynd at Aelodau o'n Cabinet, ac maen nhw'n gefnogol ac yn chwarae rhan lawn wrth gyflawni gwasanaethau.

5.19 Mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i wella gwasanaethau a chyflawni effeithlonrwydd yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n gwaith yn y Gwasanaethau i Oedolion a'r Gwasanaethau i Blant. Rydyn ni'n parhau i chwarae rhan sylweddol ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac wrth gyflenwi'r cynllun rhanbarthol, a gafodd ei lunio ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a sefydliadau'r trydydd sector.

5.20 Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gyfrifol am wasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ar ôl trosglwyddo'r cyfrifoldeb oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. O ganlyniad, byddai ffin y Bwrdd yn ymestyn i gwmpasu ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Daeth y newid i rym ar 1 Ebrill eleni. Rydyn ni wedi gweithio gyda'n partneriaid gwreiddiol a phartneriaid newydd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i sicrhau bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol newydd Cwm Taf yn weithredol ac yn effeithiol. Rydyn ni wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu gwasanaethau gofal a chymorth mwy integredig sydd o fudd i'r rheiny sydd angen ein gwasanaethau a phoblogaeth yr ardal gyfan.

5.21 O ran Gwasanaethau i Oedolion, rydyn ni wedi parhau i weithio'n agos â sefydliadau partner ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf ac yn rhanbarthol. Er enghraifft:

- Ar lefel weithredol ranbarthol, ni sy'n arwain ar y gwasanaethau Ailalluogi a Chadw'n Iach Gartref integredig. Mae'r rhain wedi'u datblygu ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

- Rydyn ni wedi datblygu cynigion ar gyfer modelau gwasanaeth newydd, e.e. gwasanaethau Cadw'n Iach Gartref a Theleofal, a hynny er mwyn cefnogi cais trawsnewid rhanbarthol. Rydyn ni hefyd wedi datblygu cynigion ar gyfer y gwasanaeth i bobl â dementia i wella'r gefnogaeth sydd ar gael yn y gymuned. Mae hyn yn dilyn llwyddiant y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref yng Ngwobrau Cenedlaethol GIG 2018, lle cafodd ei wobrwyo am weithio'n ddi-dor ar draws asiantaethau. Hefyd, derbyniodd y gwasanaeth 'ganmoliaeth fawr' yn y Gwobrau Gofal Cymdeithasol. Roedd gwerthusiad annibynnol diweddar o'r gwasanaeth wedi nodi bod tystiolaeth o arfer da o ran cydweithio'n ymarferol

- Rydyn ni'n parhau i weithio'n agos â phartneriaid rhanbarthol er mwyn datblygu cyfleoedd buddsoddi ar y cyd, a'u cydlynu'n effeithiol, e.e. y Gronfa Gofal Integredig. Ni sy'n arwain yn rhanbarthol o ran asiantaethau gofal cartref sydd wedi'u comisiynu'n allanol. Ni sy'n sicrhau bod gwasanaethau gofal cartref yn cael eu darparu'n effeithiol, gan gynnwys mentrau recriwtio a chadw staff, dynodi parthau a chomisiynu ar sail deilliannau

- Mae'r cysylltiadau rydyn ni wedi'u sefydlu â darparwyr tai, asiantaethau gofal wedi'u comisiynu a sefydliadau'r trydydd sector yn cyflawni deilliannau. Rydyn ni wedi cyflenwi modelau llety newydd (gofal tymor hir a gofal seibiant) i bobl ag anableddau dysgu, gan gynnwys Llys Pen Llew yn Aberdâr, Rhodfa'r Goron yn Nhreorci, Stryd Rhydychen yn Aberpennar a Belle Vue yn Nhrefforest. Rydyn ni wedi nodi'r datblygiadau yma yn gynharach yn yr adroddiad

- Rydyn ni'n rheoli amrywiol brosiectau partneriaeth gyda'r trydydd sector, gan gynnwys RNIB Cymru, Action on Hearing Loss, y gwasanaeth Gofal a Thrwsio, Mencap, DEWIS ac Age Connects Morgannwg. Cafodd pob un ohonyn nhw eu hadolygu yn 2018 i sicrhau bod y trefniadau'n effeithlon ac yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau

- Mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth wedi parhau i ddatblygu ac aeddfedu, gan arddangos tystiolaeth gref o arferion diogelu rhyngasiantaethol cadarn. Yn yr un modd, mae gwaith y Bwrdd Diogelu wedi darparu cyfleoedd i wella arferion o fewn asiantaethau a rhyngddyn nhw

5.22 Yn ogystal â'r uchod, mae offer ar gyfer y Gwasanaethau i Oedolion yn cael ei ddarparu trwy bartneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr trwy drefniant cyllid wedi'i gronni. A ninnau'n arwain ar lefel ranbarthol, rydyn ni hefyd wedi sefydlu cyllideb cronfa cartrefi gofal, yn ogystal â rhoi adolygiad o ddarpariaeth cartrefi gofal wedi'i chomisiynu ar y cyd ar waith.

5.23 Mae Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd wedi gwneud sylwadau *bod “cysylltiadau gweithredol a strategol effeithiol â phartneriaid rhanbarthol eraill wedi hwyluso gweithredu rhai prosiectau arloesol, fel menter y Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref, sy'n cael ei gynnig yn yr ysbyty”.* Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cryf i gyd-gynhyrchu.

5.24 Mae gweithio ar y cyd hefyd yn rhan sylfaenol o'n Gwasanaethau i Blant. Er enghraifft:

- Rydyn ni'n gweithio gyda sefydliadau cyhoeddus a'r Trydydd Sector er mwyn ceisio sefydlu diwylliant o ymyrraeth gynnar ac atal trwy, er enghraifft, y Rhaglen Teuluoedd Cydnerth. Mae hyn yn rhan o'r Fframwaith Cymorth i Deuluoedd Integredig. Diben hyn yw cydlynu a threfnu cyfraniad y gwasanaethau hynny sy'n darparu cymorth i deuluoedd

- Ni sy'n arwain ar waith datblygu Datganiad ar y Cyd o Fwriad Strategol ar gyfer Plant a Phobl Ifainc ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a sefydliadau'r trydydd sector

- Mae ein prosiect Meisgyn yn gweithio gyda charfan ein Gwasanaethau Diwylliannol i ddarparu prosiectau celf a cherddoriaeth, a chyda Chanolfan Addysg Tai i ddarparu gweithgareddau awyr agored

- Ni sy'n arwain ar Brosiect Myfyrio Cwm Taf, sy'n gweithio gyda menywod ifainc sydd wedi cael plant wedi'u tynnu o'u gofal, a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol

- Mae gyda ni gynrychiolydd ar un o Grwpiau Cynghori Gweinidogol Llywodraeth Cymru. Mae'r un person yn is-gadeirydd y Tasglu Ymyrraeth Gynnar. Mae un arall yn cadeirio grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru sy'n archwilio canllawiau arfer da ar esgeulustod.

- Rydyn ni'n cadeirio Bwrdd Partneriaeth “Law yn Llaw at Iechyd Meddwl” ar gyfer Plant a Phobl Ifainc, ac rydyn ni'n gweithio gyda Heddlu De Cymru ar weithredu'r Rhaglen Gweithredu Cynnar

5.25 Rydyn ni wedi gweithio gyda'n partneriaid i sefydlu Carfan Comisiynu Rhanbarthol ac rydyn ni wedi ymrwymo i'w helpu i ddod yn ffordd effeithiol o ddatblygu gwasanaethau mwy integredig. Bydd y garfan, a fydd yn gweithio ar draws yr holl wasanaethau, yn ceisio

sicrhau bod yr agenda integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei gweithredu ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd yn arwain ar roi'r Cynllun Rhanbarthol a rhaglen o weithgareddau comisiynu ar waith, a fydd yn helpu i wella ansawdd a gwerth am arian gwasanaethau gofal.

### Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf a pham?

- Llunio strategaeth datblygu gweithlu trosfwaol ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion
- Sicrhau bod y gyllideb yn cael ei gweithredu mewn modd effeithlon yn ôl yr hyn sydd wedi'i gytuno a rheoli gwasanaethau o fewn yr adnoddau sydd ar gael yn y tymor canolig, gan gynnwys camau gweithredu i leihau absenoldeb salwch a gwella prosesau busnes
- Gwreiddio diwylliant o sicrhau ansawdd a rheoli cyflawniad ar bob lefel o'r Gwasanaethau i Oedolion (Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu ar wybodaeth reoli a dangosyddion cyflawniad)
- Gwneud y mwyaf o incwm a dyledion Gofal Cymdeithasol i Oedolion sy'n cael eu hadennill yn sail i welliannau yn lefel y ddyled yn 2018-19
- Rheoli'r farchnad i sicrhau bod gyda ni'r gweithlu, y gofal a'r gwasanaethau lleol, diogel a chynaliadwy sydd eu hangen arnon ni

# 6. Cyrchu gwybodaeth a dogfennau allweddol

6.1 Mae'r adroddiad yma wedi crynhoi cyflawniad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Yn ychwanegol at adrodd ar gyflenwi gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae hefyd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau gweithredu a gafodd eu nodi yn adroddiad y llynedd. Mae'r adroddiad yn ein helpu ni i fod yn atebol i drigolion Rhondda Cynon Taf ac yn agored am yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

6.2 Mae cynnwys yr adroddiad yn ceisio cydbwyso maint yr wybodaeth â'r awydd i'w wneud yn addysgiadol ac yn hawdd ei darllen. P'un a ydych chi'n ceisio gwybodaeth am ein cyflawniad neu wybodaeth am gymorth a chefnogaeth yn yr ardal, mae yna ffyrdd eraill i chi gael gwybod am ein gwasanaethau a'n gwaith sydd ar y gweill, a'r camau rydyn ni’n eu cymryd mewn partneriaeth â sefydliadau eraill gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Cynghorau Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr, Heddlu De Cymru, a llu o sefydliadau'r trydydd sector, sy'n chwarae rhan mor bwysig wrth helpu pobl yn ein cymunedau.

### Ffynonellau eraill o wybodaeth

6.3 Am gymorth yn yr ardal:

- Gofal a Chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion http://preview.staging.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/AdultsandOlderPeopleSocialCare/AdultSocialServicesCareandSupport/AdultSocialServicesCareandSupport.aspx
- Plant a Theuluoedd https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ChildrenandFamilies/ChildrenscareandSupportServices/ChildrensCareandSupportServices.aspx
- Mae modd chwilio 'Dewis Cymru' ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned i'ch helpu chi a'ch teulu https://www.dewis.cymru/

6.4 Mae gwybodaeth lawn am Gynghorwyr, Pwyllgorau a Chyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor:https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/CouncillorsCommitteesandMeetings.aspx. Mae cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a'r Pwyllgor Craffu Materion Iechyd a Lles yn arbennig o berthnasol i'r adroddiad yma. Mae agendâu, papurau ac adroddiadau penderfyniadau ar gael drwy'r tudalennau gwe canlynol:

- Y Cabinet: https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Committees/Committees.aspx
- Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Committees/ChildrenandYoungPeopleScrutinyCommittee.aspx
- Pwyllgor Craffu Iechyd a Lles https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/CouncillorsCommitteesandMeetings/Committees/HealthandWellbeingScrutinyCommittee.aspx

## Cyfeiriadau

[1] Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf 2018-23
[2] Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol RhCT (2019) Innovate Trust
[3] Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di (Ebrill 2018) Arolwg o farn y plant a phobl ifainc rhwng 4 ac 18 oed sy'n derbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf
[4] Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Cymdeithasol Dibreswyl (Saesneg yn unig) https://www.rctcbc.gov.uk/EN/Resident/AdultsandOlderPeople/Helptoliveathome/RelatedDocuments/ChargingforNonResidentialSocialServices.pdf
[5] Swyddfa Archwilio Cymru (Mai 2018) Comisiynu Strategol Gwasanaethau Llety i Oedolion ag Anableddau Dysgu. Caerdydd: Swyddfa Archwilio Cymru
[6] Cynllun Gweithlu 2017-2022, Rhondda Cynon Taf https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/WorkforcePlan/RelatedDocuments/WorkforcePlan20172022.pdf